



# Datganiad Cyfrifon

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr •

2021-22



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Y Swyddfeydd Dinesig  
Stryd yr Angel  
PEN-Y-BONT AR OGWR  
CF31 4WB  
(01656) 643643**

## Cynnwys

<b>Adroddiad Naratif.....</b>	<b>4</b>
<b>Y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon .....</b>	<b>14</b>
<b>Datganiadau Ariannol .....</b>	<b>15</b>
<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.....</b>	<b>16</b>
<b>Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.....</b>	<b>18</b>
<b>Y Fantolen .....</b>	<b>20</b>
<b>Datganiad Llifoedd Arian Parod.....</b>	<b>21</b>
<b>Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol.....</b>	<b>22</b>
<b>Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.....</b>	<b>84</b>
<b>Datganiad Llywodraethu Blynyddol .....</b>	<b>88</b>
<b>Rhestr Termiau.....</b>	<b>121</b>



## Adroddiad Naratif

### “Un cyngor, yn cydweithio i wella bywydau”

#### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Datganiad Cyfrifon 2021-22 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor). Mae'n nodi perfformiad ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ac fe'i paratowyd yn unol â Chod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Gadw Cyfrifon ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22. Mae'r Cyngor yn llunio ei Ddatganiad Cyfrifon i esbonio cyllid y Cyngor, i roi sicrwydd y rhoddir cyfrif yn briodol am arian cyhoeddus, a bod y Cyngor yn gweithredu ar sail ariannol sicr. Rhaid i'r cyfrifon roi darlun 'cywir a theg' o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2022, ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cyflawni tua £62 miliwn o arbedion cronus ac mae'n ofynnol cyflawni rhagor o fesurau effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol. Mae'r broses o adnabod arbedion a newid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau gwasanaethau modern, gwell a chydnerth, yn parhau. O ystyried ansicrwydd economaidd sylweddol, yn anad dim yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, canlyniadau pandemig Covid-19, y rhyfel yn Wcráin a lefelau chwyddiant esgynnol, bydd y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol wrth iddo ymdrechu i ddarparu ei amrywiaeth helaeth o wasanaethau i'r cymunedau y mae'n eu cefnogi. Mae angen iddo wneud hynny gan barhau i fod yn gydnherth yn ariannol.


#### Pen-y-bont ar Ogwr fel Cyngor

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi ei lleoli'n gyfleus rhwng prifddinas Cymru, Caerdydd, i'r dwyrain a dinas Abertawe i'r gorllewin, tuag 20 milltir o'r naill a'r llall. A hithau'n nythu ychydig i'r de o goridor yr M4, gyda mynediad hawdd o'r ddwy ddinas fawr, gan ffinio â Môr Hafren i'r de, mae wrth galon llain ddiwydiannol ac arfordirol De Cymru. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu ardal o 98.5 milltir<sup>2</sup> ac mae'n gartref i bron i 148,000 o drigolion. I'r gogledd mae tref breswyl Maesteg, i'r de-orllewin mae tref arfordirol Porthcawl ac i'r dwyrain mae Pen-coed. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o 22 o gynghorau yng Nghymru, ac yn rhoi cyfrif am oddeutu 4.5% o boblogaeth y wlad.



- Mae'r Cyngor yn rheoli sylfaen asedau hirdymor sy'n werth £619 miliwn i ddarparu ei wasanaethau.
- Mae'r Cyngor yn cyflogi dros 5,800 o aelodau o staff, yn rhai llawn-amser a rhan-amser, i ddarparu ystod eang o wasanaethau gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, cynnal a chadw priffyrdd a datblygu economaidd.
- Mae nifer o wasanaethau yn cael eu darparu gan drydydd partïon gan gynnwys casglu gwastraff, canolfannau hamdden, mentrau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth.
- Ar 31 Mawrth 2022 roedd gan y Cyngor 54 o Gynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli pobl Pen-y-bont ar Ogwr ac yn pennu strategaeth a fframwaith cyllideb y Cyngor ar y cyfan. Mae cynrychiolaeth Pleidiau Gwleidyddol yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022 wedi'i nodi isod.

### Y Pleidiau Gwleidyddol a Gynrychiolir gan Gynghorwyr Pen-y-bont ar Ogwr



Cynhaliwyd yr etholiadau llywodraeth leol ar 6 Mai 2022. Yn dilyn adolygiad gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru cafodd nifer cynghorwyr Pen-y-bont ar Ogwr eu lleihau o 54 i 51. Yn yr etholiadau llwyddodd Llafur i adennill rheolaeth ar y Cyngor gyda mwyafrif o 26 o aelodau.

Mae'r cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyngor yn ethol Maer yn flynyddol i gyflawni rôl ddinesig a hyrwyddo'r Sir. Mae'r Cyngor hefyd yn penodi arweinydd ar y Cyngor sy'n penodi Aelodau'r Cabinet, pob un â chyfrifoldeb am bortffolio penodol o wasanaethau.

Rôl y Cabinet yw bod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau mawr, darparu arweinyddiaeth, a chynnig fframwaith y gyllideb a'r gyllideb.

Mae Pwyllgorau Craffu'n cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor trwy:

- fonitro penderfyniadau'r Cabinet
- ystyried y modd y caiff gwasanaethau eu darparu, eu cynllunio a'u rheoli ynghyd â pherfformiad meysydd gwasanaeth
- caniatáu i'r holl Gynghorwyr, dinasyddion a rhanddeiliaid gael llais mewn materion sy'n ymwneud â'r Cyngor
- ystyried polisïau, protocolau a chynlluniau a chynhyrchu adroddiadau ac argymhellion arnynt
- cyfrannu at y broses o ymgynghori'n flynyddol ar y gyllideb
- cael y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cabinet a'r Cyngor yn y dyfodol trwy gyfarfodydd cyn penderfynu
- meddu ar y gallu i adolygu penderfyniad a wnaed ond nas rhoddwyd ar waith eto

Mae pwyllgorau rheoleiddiol a phwyllgorau eraill yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi rhoi'r cyfrifoldeb am adolygu a chymeradwyo Datganiadau Ariannol y Cyngor i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Arweinir Bwrdd Rheoli Corfforaethol y Cyngor gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y 3 Chyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar egwyddor o ganolbwyntio adnoddau sy'n lleihau ar gymunedau ac unigolion sydd â'r angen mwyaf. Mae wedi nodi tair blaenoriaeth sydd wedi'u bwriadu i wella ansawdd bywyd pobl yn y fwrdeistref sirol gan newid natur y Cyngor yn sylweddol ar yr un pryd.

Y tair blaenoriaeth hyn yw amcanion llesiant y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent yn nodi cyfraniad y Cyngor tuag at gyrraedd saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf. Mae [Cynllun Corfforaethol](#) y Cyngor yn nodi beth yw amcanion y Cyngor a sut y bydd yn eu cyflawni ac mae ei [Adroddiad Blynyddol](#) yn darparu gwybodaeth am y cynnydd tuag at eu cyflawni.

### Ein hamcanion llesiant



### Saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

At ddibenion rheoli trefnir gweithrediadau'r Cyngor i Gyfarwyddiaethau, ac mae pob un ohonynt yn adrodd i'r Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn rheoli Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr. Y Cyfarwyddiaethau yw:

**Addysg a Chymorth i Deuluoedd:** Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr, Cymorth i Deuluoedd, Cymorth i Ysgolion, Moderneiddio Ysgolion, Cymorth i Grwpiau Agored i Niwed, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, a Chymorth Busnes.

**Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:** Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gofal Preswyl, Gofal Cartref, Cyfleoedd Dydd, Atal a Llesiant – Canolfannau Hamdden, Canolfannau Cymunedol, Partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol, Gofal Cymdeithasol i Blant – Plant â Phrofiad o Fod mewn Gofal, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, Mabwysiadu a Gwaith Cymdeithasol.

**Cymunedau:** Cynllunio a Datblygu, Landlord Corfforaethol, Adfywio Strategol, Yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, Strydoedd Glannach a Rheoli Gwastraff, Priffyrdd a Mannau Gwyrdd.

**Y Prif Weithredwr:** Cyllid, Adnoddau Dynol, Partneriaethau, Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Rheoleiddiol, TGCh, Etholiadau, Tai a Digartrefedd, a Chymorth Busnes.

### Llywodraethu

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau o ran effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gynhwysir o fewn y Datganiad Cyfrifon yn nodi trefniadau llywodraethu'r Cyngor mewn manylder.

## Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn aelod gweithgar o fenter Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfrannu 9.44% o'r cyfraniad o £120 miliwn gan y 10 Awdurdod Lleol sy'n bartneriaid at y cyfanswm o £1.2 biliwn ar gyfer cynllun y Fargen Ddinesig, gyda'r ganran yn seiliedig ar ei gyfran o'r boblogaeth ranbarthol ac mae'n ariannu cost flynyddol y buddsoddiad hwn. Cyfrifoldeb Cabinet Rhanbarthol BDdPRC yw datblygu a rheoli'r £120 miliwn. £Dim oedd y cyfraniad cyfalaf yn 2021-22 (2020-21 £0.188 miliwn). Mae cyfran Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr o incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cael ei chydgrynhoi yn y Datganiad Cyfrifon a nodiadau perthnasol, ar gyfer 2021-22, ac mae ffigyrau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu cyfran y Cyngor yn 2020-21.

### Covid-19

Ers dechrau pandemig Covid-19 mae'r DU wedi gweld nifer o gyfnodau clo a chyfyngiadau. Wrth i'r wlad ddod allan o'r pandemig, mae'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo ei staff i weithio o bell a gweithio gartref gymaint â phosibl. Parhaodd Llywodraeth Cymru i roi cymorth ariannol fel ymateb i effaith y pandemig ac roedd y cynlluniau a weinyddwyd gan y Cyngor ar ran Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

Grant	Diben
Cynllun Brys ar gyfer Ardrethi Annomestig (NDR)	Darparu Grantiau Cymorth Busnes Ardrethi Annomestig i fusnesau yn y sectorau Manwerthu, Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau a ddaeth i rym ar 26 Rhagfyr 2021. Roedd tair elfen i'r cynllun grantiau: <ul style="list-style-type: none"> <li>Grant o £2,000 i fusnesau a oedd yn meddu ar unedau eiddo â gwerth ardrethol hyd at £12,000</li> <li>Grant o £4,000 i fusnesau a oedd yn meddu ar unedau eiddo â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £51,000</li> <li>Grant o £6,000 i fusnesau a oedd yn meddu ar unedau eiddo â gwerth ardrethol rhwng £51,001 a £500,000.</li> </ul>
Taliadau i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	Cymorth ariannol i weithwyr gofal cymdeithasol yr oedd angen iddynt hunanynysu neu aros i ffwrdd o'r gwaith yn unol â chanllawiau hunanynysu. Diben y taliadau oedd cefnogi'r rhai nad oeddent ond yn derbyn tâl salwch statudol neu a oedd heb incwm o gwbl.
Taliadau hunanynysu	Cymorth i weithwyr nad oeddent yn gallu gweithio gartref ac y'u cynghorwyd i hunanynysu o ganlyniad i gael a chofnodi prawf positif. Hefyd i rieni a gofalwyr â phlant a oedd yn cofnodi profion positif.
Ychwanegiadau at Dâl Salwch Statudol	Er mwyn galluogi cyflogwyr i dalu cyflog llawn i weithwyr cymwys os oedd gofyn iddynt aros i ffwrdd o'r gwaith oherwydd achos gwirioneddol neu dybiedig o Covid-19, neu am bod rhaid iddynt hunanynysu
Taliadau Tanwydd Gaeaf	Taliad o £200 i aelwydydd cymwys tuag at gost uwch tanwydd.

Caiff cyfanswm nifer y taliadau a'r symiau a dalwyd (ac eithrio ffioedd gweinyddol) eu nodi isod:

Grant	Nifer	Cyfanswm y grant a dalwyd
Cynllun Brys ar gyfer Ardrethi Annomestig (NDR)	882	£1,992,000
Taliadau i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (£750)	4,184	£3,602,883
Taliadau hunanynysu	2,498	£1,736,750
Ychwanegiadau at Dâl Salwch Statudol	459	£182,830
Taliadau Tanwydd Gaeaf (£200)	8,647	£1,729,400
<b>CYFANSWM</b>	<b>16,670</b>	<b>£9,243,863</b>

Y Cyngor oedd yn gweinyddu'r taliadau hyn. Roedd rheoli maint a gwerth y grantiau hyn yn rhoi pwysau ar staff i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn gyflym, ac i'r busnesau a'r derbynyddion cywir.


Ar 31 Mawrth 2022 roedd gan y Cyngor falansau arian parod mewn perthynas â grantiau i fusnesau o £1,329,440.

### Cronfa Galedi

A hithau'n cydnabod y pwysau ychwanegol o ran costau a'r posibilrwydd o golli incwm a wynebid gan Gyngorau o ganlyniad i'r pandemig, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Gronfa Galedi yn 2020-21 i gynorthwyo Gyngorau i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn a diffygion mewn incwm. Parhaodd y Gronfa Galedi yn ystod 2021-22. Cafodd y Cyngor £12.872 miliwn yn 2021-22 o'r gronfa hon, a gefnogodd £11.965 miliwn o hawliadau a wnaed ar gyfer costau ychwanegol penodol a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 a £0.907 miliwn o hawliadau a wnaed ar gyfer incwm a gollwyd yn benodol o ganlyniad i Covid-19. Y prif feysydd a ariannwyd ar gyfer gwariant ychwanegol oedd cymorth i unigolion digartref, i ddarparu llety iddynt, darparu Prydau Ysgol am Ddim (gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol), costau staffio ychwanegol ynghyd â darpariaethau i gefnogi'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol a dysgu mewn ysgolion, a chostau ychwanegol rhoi gofal a chymorth ar gyfer unedau gwag ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae hyn hefyd yn cynnwys hawliadau am Daliadau Hunanynysu a'r ychwanegiadau at Dâl Salwch Statudol, yn ogystal â'r taliadau Tanwydd Gaeaf, a gafodd eu hariannu o'r Gronfa Galedi. Roedd cyllid ar gyfer colli incwm yn bennaf yn cefnogi'r gostyngiad mewn incwm mewn perthynas â phrydau ysgol a meysydd parcio, a chyfraniad at y golled net mewn perthynas â rhedeg y gwasanaethau hamdden yn ystod y pandemig.

### Perfformiad ariannol

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cyflawni tua £62 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb. Gan ystyried gwariant a gwasanaethau sy'n cael eu hariannu â grantiau, ffioedd neu daliadau penodol, roedd cyllideb gros y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn £446 miliwn. Mae hyn yn talu costau rhedeg y Cyngor o ddydd i ddydd, gan gynnwys staff, casglu gwastraff, ysgolion, gweithwyr gofal, gofaluwr maeth a gwasanaethau hamdden. Mae'r Cyngor yn cael cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru (Grant Cynnal Refeniw) a chyfran o ardrethi busnes neu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR), incwm o grantiau penodol, y dreth gyngor, ffioedd a thaliadau am rai gwasanaethau, ac o'i fuddsoddiadau fel a ddangosir isod.




Daw'r mwyafrif o gyllid y Cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Cynnal Refeniw (tua 34%) a'i gyfran o ardrethi annomestig (busnes) (tua 10%) gyda Grantiau eraill gan y Llywodraeth (gan gynnwys grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru) yn rhoi cyfrif am ychydig dros chwarter arall o fewn incwm y Cyngor (29%). Tua 21% o incwm yw'r Dreth Gyngor. Mae'r Cyngor yn gallu codi tâl am nifer o wasanaethau fel gofal cymdeithasol, parcio ceir a thrwyddedu, sy'n rhoi cyfrif am tua 7% o gyfanswm incwm y Cyngor.




Mae'r Cyngor yn gwario ei arian ar gyflogeion, gwariant sy'n gysylltiedig â mangreoedd, costau trafndiaeth, cyflenwadau a thaliadau i ddarparwr trydydd parti. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd dalu costau cyllido cyfalaf (llog) fel rhan o'i drefniadau benthyca hirdymor.

O ganlyniad i reolaeth ariannol effeithiol ar draws y Cyngor drwy'r pandemig, gan sicrhau bod arian cymwys wedi cael ei hawlio o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru ynghyd ag arian grant atodol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, llwyddodd y Cyngor i wneud cyfraniad net at gronfeydd wrth gefn am y flwyddyn o £18.147 miliwn ynghyd â chyflawni cynnydd o £5.738 miliwn yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion a gwneud trosglwyddiad o £0.338 miliwn i'r Gronfa Gyffredinol. Bydd y rhain yn ariannu amrywiaeth o fuddsoddiadau mewn gwasanaethau a chyfleusterau i'w drigolion ac yn lliniaru risgiau ymrwymyadau gwariant yn y dyfodol. Dadansoddir gwariant y Cyngor isod.



### Gwariant Cyfarwyddiaethau

Caiff gwariant net y Cyngor fesul Cyfarwyddiaeth ei ddangos yn y tabl isod.



Cyflawnodd y Cyngor danwariant, ar ôl trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi, o £0.338 miliwn, neu 0.11% o'i gyllideb net. Mae hyn yn dangos ei reolaeth ariannol gadarn trwy gydol y flwyddyn a'i ymrwymiad i sicrhau nad yw'n gwario y tu hwnt i'w fodd. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa cau ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth. Mae adroddiad alldro'r Cyngor am y flwyddyn i'w weld ar wefan y Cyngor [yma](#).

	Cyllideb Net £'000	Gwariant net £'000	(Tan)/tros wariant £'000	(Tan)/tros wariant %
<b>CYFARWYDDIAETH</b>				
Y Prif Weithredwr	21,801	18,731	(3,070)	(14.1)
Addysg a Chymorth i Deuluoedd	24,017	23,844	(173)	(0.7)
Cymunedau	28,654	28,456	(198)	(0.7)
Gwasanaethau Ar Draws y Cyngor a throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi	47,673	58,630	10,957	23.0
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	75,239	69,848	(5,391)	(7.2)
Ysgolion	104,275	104,275	-	-
Ariannu a chyllido	(301,659)	(304,122)	(2,463)	0.6
<b>CYFANSWM</b>	-	(338)	(338)	(0.11)

### Mynd i'r afael â heriau'r dyfodol

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau demograffig, fel poblogaeth sy'n heneiddio, cyfraddau dementia cynyddol, nifer cynyddol o bobl ifanc ag anableddau cymhleth sy'n byw i fod yn oedolion ac effaith hirdymor Covid-19 sy'n ychwanegu'n gynyddol at y galw am ofal. Yn ogystal â hyn ceir pwysau chwyddiannol sy'n deillio o ymrwymadau cytundebol penodol a chodiadau sylweddol mewn costau staffio sy'n deillio o'r cynnydd chwyddiannol uchod yn y cyflog byw cenedlaethol a gweithredu'r cyflog byw gwirioneddol. Hefyd mae angen canolbwyntio ar newid hinsawdd a'r angen i gyrraedd targed datgarboneiddio 2030. Mae'r setliad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 2022-23 yn gynydd o 9.2%. Cyhoeddwyd setliadau dangosol is ar gyfer 2023-24 a 2024-25 na'r setliad a gyhoeddwyd ar gyfer 2022-23 ac, o ystyried y ffaith bod y setliad fel arfer yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfrifoldebau newydd, ynghyd â'r pwysau a amlinellwyd yn barod, mae hyn yn ei gwneud yn anodd blaengynllunio, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.


Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cynyddol ar ei gyllideb, cymeradwyodd gyllideb fantoldig ar gyfer 2022-23. Bydd yr hinsawdd economaidd ansicr yn golygu bod angen i'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau a'i gyllidebau'n barhaus.

### Y sefyllfa ariannol

Mae'r Cyngor yn rheoli asedau a llifoedd arian sylweddol. O ran sefyllfa'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

- Roedd ganddo £619 miliwn o asedau tymor hir, gan gynnwys £607 miliwn o asedau gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau, £5.5 miliwn o eiddo y buddsoddiwyd ynddo ac £1.9 miliwn o asedau anniriaethol
- Cafodd £321 miliwn mewn cyllid grant, yr oedd £166 miliwn ohono'n gyllid craidd – neu Grant Cynnal Refeniw - gan Lywodraeth Cymru; roedd cyfanswm y grant Budd-dal Tai a gweinyddu yn £34.347 miliwn; a daeth £12.872 miliwn o Grant Caledi Llywodraeth Cymru i gynorthwyo Awdurdodau Lleol gyda chostau ychwanegol ac incwm a gollwyd o ganlyniad i bandemig Covid-19.
- Creodd £37.2 miliwn o ffioedd a thaliadau ac incwm arall gan wasanaethau a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn dal i fod â mantolen gref er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebwyd yn 2021-22.



Mae cronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i gynydd ym mhriiad asedau yn y flwyddyn gyfredol (£55 miliwn), yn arbennig ysgolion, a hefyd gostyngiad yn rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn (£49 miliwn). Gan bod y rhain yn anefnyddiadwy maent yn cynrychioli addasiadau cyfrifyddu yn hytrach na llifoedd arian gwirioneddol.

## Benthyciadau

Mae gan y Cyngor fenthyciadau hirdymor a oedd yn dal yn ddyledus ar 31 Mawrth 2022 o £100.074 miliwn. Mae hyn yn gymysgedd o fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) o £77.617 miliwn, benthyciadau Opsiwn Echwynnwr Opsiwn Benthyciwr (LOBOs) o £19.774 miliwn, a £2.683 miliwn o fenthyciadau Salix i gyllido gwariant cyfalaf. Darperir rhagor o fanylion mewn perthynas â benthyciadau yn nodyn 31. Dylid ystyried y benthyciadau yng nghyd-destun cyfanswm gwerth asedau tymor hir y Cyngor, sydd i'w gweld yn y Fantolen, ac sy'n £619 miliwn. Caniateir benthycia yn unol â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol cyn belled â bod y costau refeniw, ym marn y Prif Swyddog Cyllid, yn gallu cael eu talu a'u bod yn cyd-fynd â dangosyddion a chanllawiau darbodus. O ystyried cryfder y Fantolen, mae lefelau benthycia'r Cyngor yn rhesymol. Os cyfyd y cyfle i'r Cyngor ad-dalu ei fenthyciadau LOBO er budd i'r Cyngor, yna bydd yn amcanu at wneud hynny. Er bod cyfraddau llog wedi dechrau cynyddu, maen nhw'n dal yn gymharol isel. Gan hynny, mae'n annhebygol y bydd y cyfle i ad-dalu'r benthyciadau LOBO yn codi yn y dyfodol agos.

## Atebolrwydd Pensiynau: £249.5 miliwn

Mae gofynion Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS19) mewn perthynas â buddion ar ôl cyflogaeth – h.y. pensiynau, wedi'u hymgorffori'n llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gydag enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod o fewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall, fel yr eglura nodyn 30 yn fanwl.

Mae cronfa pensiynau wrth gefn a rhwymedigaeth pensiwn wedi'u hymgorffori o fewn cyfrifon y Cyngor, gan adlewyrchu o faint y mae elfen Pen-y-bont ar Ogwr o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn cael ei thanariannu o'i gymharu â'r rhwymedigaethau talu asesedig i pensiwnwyr yn awr ac yn y dyfodol. Roedd rhwymedigaeth pensiynau'r Cyngor ar y cyfan ar 31 Mawrth 2022 yn £249.50 miliwn (£298.77 miliwn ar 31 Mawrth 2021). Mae'r rhwymedigaeth yn ystyried y rhwymedigaeth 'sylfaenol' bosibl o ganlyniad i'r dyfarniad yn achos McCloud/Sargeant bod effaith trefniadau diogelu trosiannol a roddwyd ar waith pan gafodd cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a barnwyr eu diwygio yn gwahaniaethu ar sail oedran.

Nid yw'r rhwymedigaeth yn cynnwys lwfans ar gyfer effaith Covid-19 na marwolaethau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig oherwydd barn yr actiwari, gan bod nifer y marwolaethau a gofrestrwyd dros y cyfnod yn arwain at gynydd mewn marwolaethau sy'n bell y tu allan i'r ystod dros y 4 degawd diwethaf, na ddylid rhoi unrhyw bwys ar ddata 2020 na 2021. Fodd bynnag, argymhellodd yr actiwari lwfans ar gyfer effaith pandemig Covid-19 ar welliannau yng nghyfradd y marwolaethau yn y dyfodol (o'i gymharu â marwolaethau disgwylidig cyn y pandemig) trwy gynydd o 3% yn y ffactorau graddfa a fabwysiadwyd ar gyfer prisiaid 2019, gan arwain at ostyngiad amcangyfrifedig mewn rhwymedigaethau o 1%.

## Cyfalaf

Roedd rhaglen gyfalaf wreiddiol y Cyngor ar gyfer 2021-22, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2021, yn £35.440 miliwn. O ganlyniad i bandemig Covid-19, llithrodd rhai cynlluniau i 2022-23 gydag alldro terfynol 2021-22 yn £29.742 miliwn. Roedd cynlluniau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith i amddiffyn yr arfordir ym Mhorthcawl, ailddatblygu Neuadd y Dref ym Maesteg a darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer unigolion yn y gymuned.

Mae'r setliad cyfalaf llywodraeth leol ar gyfer 2022-23 yn rhoi £6.678 miliwn o gyllid cyfalaf i'r Cyngor, y mae £3.953 miliwn ohono'n fenthyciad â chymorth a £2.725 miliwn yn grant cyfalaf. Ni roddwyd unrhyw ddynodiadau ar gyfer Awdurdodau Lleol unigol ar gyfer 2023-24 na'r tu hwnt, er y rhagwelir y bydd y grant cyfalaf cyffredinol i Gymru ar y cyfan yn cynyddu £30 miliwn dros y 2 flynedd nesaf. Ym mis Chwefror 2022 cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf ddeng mlynedd o £180 miliwn fel a nodir yn y tabl isod. Mae'r tabl hefyd yn darparu alldro 2021-22.

	ALLDRO	CYNLLUN DENG MLYNEDD				Cyfanswm
	2021-22	2022-2023	2023-2024	2024-2025 i 2031-2032		
<b>GWARIANT</b>	<b>£'000</b>	£'000	£'000	£'000	£'000	
Addysg a Chymorth i Deuluoedd	4,644	10,589	6,051	40,583	57,223	
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	797	2,374	-	-	2,374	
Cymunedau	19,748	50,924	7,010	17,463	75,397	
Y Prif Weithredwr	4,552	2,720	2,720	19,870	25,310	
Ar Draws y Cyngor ac Arall		3,372	1,879	14,538	19,789	
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>29,741</b>	<b>69,979</b>	<b>17,660</b>	<b>92,454</b>	<b>180,093</b>	
<b>CYLLID</b>						
Grantiau a Chyfraniadau a106	18,152	26,078	7,616	51,656	85,350	
Derbyniadau Cyfalaf a Chyfraniadau Refeniw	1,020	30,993	5,300	8,383	44,676	
Benthyciadau	10,569	12,908	4,744	32,415	50,067	
<b>Cyfanswm Cyllid</b>	<b>29,741</b>	<b>69,979</b>	<b>17,660</b>	<b>92,454</b>	<b>180,093</b>	

## Y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon, ac yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:

### Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon

Mae hwn yn nodi priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r swyddog Adran 151 am baratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

### Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)

Mae hwn yn cofnodi'r holl incwm a gwariant yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu â threthi. Mae Cynghorau'n codi trethi i ariannu gwariant yn unol â gofynion statudol, a all fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Caiff y sefyllfa o ran trethi ei dangos yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid a'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

### Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn (MiRS)

Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn yn dangos y symudiad o ddechrau'r flwyddyn tan ddiwedd y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd wrth gefn



defnyddiadwy' – y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant – a chronfeydd wrth gefn 'annefnyddiadwy', y mae'n rhaid eu neilltuo i ddibenion penodol. Byddai cronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy'n cynnwys enillion a cholledion heb eu realeiddio (megis y Gronfa wrth Gefn Ailbriso), lle byddai'r symiau ar gael dim ond os caiff yr asedau eu gwerthu, a chronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu 'addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu dan y rheoliadau'. Mae'r gwarged neu'r diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau'n dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, y dangosir rhagor o fanylion amdani yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor at ddibenion pennu lefelau'r dreth gyngor. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos y symudiadau statudol ym malans Cronfa'r Cyngor yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny.

## Y Fantolen

Mae hon yn cofnodi ciplun o asedau, rhwymedigaethau, balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddyddiad diwedd y flwyddyn. Mae'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor yn cyfateb i asesiadau net y Cyngor (asesiadau namyn rhwymedigaethau).

## Datganiad Llifoedd Arian Parod

Mae'r Datganiad Llifoedd Arian Parod yn dangos y rheswm dros newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Cyngor yn creu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod trwy ddsbarthu llifoedd arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae swm y llifoedd arian parod net sy'n codi o weithgareddau gweithredu'n un o'r dangosyddion allweddol sy'n nodi i ba raddau y mae gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu hariannu â threthi ac incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y mae all-lifoedd arian parod wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae llifoedd arian parod sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragfynegi hawliadau ar lifoedd arian parod yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) i'r Cyngor.

## Nodiadau ar y Cyfrifon

Mae'r rhain yn nodi'r Polisiâu Cyfrifyddu a fabwysiadwyd ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a datgeliadau sy'n ymwneud â'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys datgeliadau am bensynau ac offerynnau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid sy'n dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r Llywodraeth, ffioedd a thaliadau, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan y Cyngor o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Cyngor yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion penderfynu rhwng Cyfarwyddiaethau'r Cyngor a meysydd ar draws y Cyngor. Caiff incwm a gwariant y rhoddir cyfrif amdanynt dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n fwy llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## Casgliad

Mae 2021-22 wedi bod yn flwyddyn anodd o ran effaith pandemig Covid-19 ar ddarparu gwasanaethau, a hefyd yn ariannol o ganlyniad i'r pandemig, ond hefyd pwysau ehangach fel ymadael â'r Undeb Ewropeidd a chwyddiant cynyddol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn gallu cadw o fewn ei gyllideb refeniw net er gwaethaf y pwysau cynyddol hyn. Bydd y cyfnod anodd hwn yn cael effaith ariannol sylweddol i ni fel unigolion, i'n trigolion, i'n cymunedau a'n busnesau, a bydd angen i'r tybiaethau ariannol manwl sy'n tanategu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor gael eu hailystyried yn gyson i sicrhau cydnerthedd ariannol parhaus y Cyngor.

## Y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon

### Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn y Prif Swyddog Cyllid yw'r swyddog hwnnw.
- Rheoli ei faterion i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Llofnod: \_\_\_\_\_ 26 Ionawr 2023

### Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

#### Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol ag arferion priodol a nodir yng *Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus
- cydymffurfio â'r Cod ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

#### Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid

Yr wyf yn tystio bod y Datganiad Cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Llofnod: \_\_\_\_\_ 26 Ionawr 2023



**Datganiadau Ariannol**

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Ffigyrau 2020-21 wedi'u Hailddatgan					2021-22				Nodiadau
Gwariant Gros £'000	Grantiau'r Llyw £'000	Incwm Arall £'000	Gwariant Net £'000		Gwariant Gros £'000	Grantiau'r Llyw £'000	Incwm Arall £'000	Gwariant Net £'000	
168,803	(39,915)	(7,079)	121,809	Addysg a Chymorth i Deuluoedd	172,989	(42,877)	(6,592)	123,520	
106,627	(11,756)	(17,392)	77,479	Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	114,644	(17,113)	(18,746)	78,785	
53,365	(12,282)	(4,063)	37,020	Cymunedau	62,341	(14,959)	(7,527)	39,855	
72,987	(50,187)	(1,886)	20,914	Y Prif Weithredwr	78,347	(52,016)	(2,802)	23,529	
25,216	(8,946)	(588)	15,682	Gwasanaethau Ar Draws y Cyngor	29,573	(5,506)	(206)	23,861	
238	(206)	(274)	(242)	Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)	483	(432)	(269)	(218)	
<b>427,236</b>	<b>(123,292)</b>	<b>(31,282)</b>	<b>272,662</b>	<b>Cost Gwasanaethau</b>	<b>458,377</b>	<b>(132,903)</b>	<b>(36,142)</b>	<b>289,332</b>	
17,714			17,714	<b>Gwariant Gweithredu Arall</b>					
7,471			7,471	Praesaepau'n daladwy	18,490			18,490	7
274			274	Ardollau'n daladwy (Enillion) / colled wrth waredu asedau anghyfredol	7,774			7,774	7
<b>25,459</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>25,459</b>	<b>Gwariant Gweithredu Arall</b>	<b>26,837</b>			<b>26,837</b>	
4,550			4,550	<b>Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi</b>					
40			40	Llog yn daladwy ar ddyledion Eifen llog o brydlesi cyllid (Iesddeiliad)	4,558			4,558	31
1,203			1,203	Llog yn daladwy ar daliadau unedol PFI	32			32	31
6,460			6,460	Llog Net ar Rwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net	1,145			1,145	13
		(895)	(895)	Incwm Buddsoddi a Llog Arall sy'n Dderbyniadwy	6,100		(840)	(840)	30
		(455)	(455)	Newidiadau yng ngwerth teg unedau eiddo buddsoddi			(495)	(495)	31
		(15)	(15)	Incwm Llog a Buddsoddi BDdPRC			(16)	(16)	22
713			713	Newidiadau yng Ngwerth Teg Unedau Eiddo Buddsoddi BDdPRC	11			11	
<b>12,966</b>	<b>-</b>	<b>(1,365)</b>	<b>11,601</b>	<b>Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi</b>	<b>11,846</b>	<b>-</b>	<b>(1,351)</b>	<b>10,495</b>	
	(157,816)		(157,816)	<b>Incwm o Drethiant a Grantiau Amhenodol</b>		(166,107)		(166,107)	8
	(1,261)	(45,312)	(103,174)	Grant Cynnal Refeniw Ardrethi Annomestig			(48,787)	(48,787)	9
	(12,325)	(101,913)	(12,325)	Cenedlaethol		(1,151)	(106,566)	(107,717)	10
	(422)	(87)	(422)	Y Dreth Gyngor		(18,844)		(18,844)	11
		(87)	(87)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau cydnabyddedig		(489)		(489)	
				Grantiau cyfalaf a chyfraniadau cydnabyddedig BDdPRC	46			46	
				Treuliau Treth BDdPRC					
<b>-</b>	<b>(171,824)</b>	<b>(147,312)</b>	<b>(319,136)</b>	<b>Incwm o Drethiant a Grantiau Amhenodol</b>	<b>46</b>	<b>(186,591)</b>	<b>(155,353)</b>	<b>(341,898)</b>	
<b>465,661</b>	<b>(295,116)</b>	<b>(179,959)</b>	<b>(9,414)</b>	<b>(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>497,106</b>	<b>(319,494)</b>	<b>(192,846)</b>	<b>(15,234)</b>	



		(10,416)	(10,416)	(Gwarged) neu ddiffyg ar ailbriso Eiddo, Offer a Chyfarpar Colledion amhariad ar asedau anghyfredol a godir ar y gronfa wrth gefn Ailbriso (Enillion) / colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn			(61,794)	(61,794)	<b>29a</b>
2,646			2,646		1,669			1,669	<b>29a</b>
		(9,230)	(9,230)				(79,020)	(79,020)	<b>30</b>
			<b>(17,000)</b>	<b>(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>				<b>(139,145)</b>	
			<b>(26,414)</b>	<b>Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr</b>				<b>(154,379)</b>	

## Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi	Cronfeydd Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf Heb Eu Cymhwys	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy BDdPRC	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	Cronfeydd Wrth Gefn Annefnnyddiadwy BDdPRC	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Annefnnyddiadwy	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor Wedi'u Hail-ddatgan
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2020 wedi'i ddwyn ymlaen</b>	<b>9,340</b>	<b>55,222</b>	<b>18,608</b>	<b>317</b>	<b>-</b>	<b>83,487</b>		<b>68,350</b>	<b>151,837</b>
<b>Balans Agoriadol BDdPRC</b>					<b>591</b>	<b>591</b>	<b>3,507</b>	<b>3,507</b>	<b>4,098</b>
<b>Balans wedi'i Ailddatgan ar 31 Mawrth 2020 wedi'i ddwyn ymlaen</b>	<b>9,340</b>	<b>55,222</b>	<b>18,608</b>	<b>317</b>	<b>591</b>	<b>84,078</b>	<b>3,507</b>	<b>71,857</b>	<b>155,935</b>
<b>Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2020-21</b> (Gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau	9,361				53	9,414	-	17,000	26,414
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu dan y rheoliadau (Nodyn 20)	18,697		2,911	(29)	289	21,868	(289)	(21,868)	-
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (Nodyn 28)	(27,626)	27,626				-			
<b>Cynnydd/ (Gostyngiad) yn 2020-21</b>	<b>432</b>	<b>27,626</b>	<b>2,911</b>	<b>(29)</b>	<b>342</b>	<b>31,282</b>	<b>(289)</b>	<b>(4,868)</b>	<b>26,414</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2021 wedi'i gario ymlaen</b>	<b>9,772</b>	<b>82,848</b>	<b>21,519</b>	<b>288</b>	<b>933</b>	<b>115,360</b>	<b>3,218</b>	<b>66,989</b>	<b>182,349</b>

	Balans Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	Cronfeydd wrth Gefn Derbyn- iadau Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf Heb Eu Cym- hwyso	Cron- feydd Wrth Gefn Defnydd- iadwy BDdPRC	Cyfan- swm Cron- feydd Wrth Gefn Defnydd- iadwy £'000	Cron- feydd Wrth Gefn Annefny ddiadwy BDdPRC	Cyfan- swm Cron- feydd Wrth Gefn Annefny ddiadwy	Cyfan- swm Cron- feydd Wrth Gefn y Cyngor
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Balans ar 31 Mawrth 2021 wedi'i ddwyn ymlaen</b>	<b>9,772</b>	<b>82,848</b>	<b>21,519</b>	<b>288</b>	<b>933</b>	<b>115,360</b>	<b>3,218</b>	<b>66,989</b>	<b>182,349</b>
<b><u>Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2021-22</u></b>									
(Gwarged)/diffyg ar ddarparu gwasanaethau	14,568				666	15,234	-	139,145	154,379
Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu dan y rheoliadau (Nodyn 20)	9,655		254	5,759	(235)	15,433	235	(15,433)	-
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (Nodyn 28)	(23,885)	23,885							-
<b>Cynnydd/ (Gostyngiad) yn 2021-22</b>	<b>338</b>	<b>23,885</b>	<b>254</b>	<b>5,759</b>	<b>431</b>	<b>30,667</b>	<b>235</b>	<b>123,712</b>	<b>154,379</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2022 wedi'i gario ymlaen</b>	<b>10,110</b>	<b>106,733</b>	<b>21,773</b>	<b>6,047</b>	<b>1,364</b>	<b>146,027</b>	<b>3,453</b>	<b>190,701</b>	<b>336,728</b>

## Y Fantolen

Ffigyrau 31 Mawrth 2021 wedi'u Hailddtgan £'000		31 Mawrth 2022 £'000	Nodiadau
529,372	Eiddo, Offer a Chyfarpar	607,335	21c
220	Asedau Treftadaeth	220	
5,090	Eiddo Buddsoddi	5,585	22
2,737	Eiddo Buddsoddi BDdPRC	2,733	22
189	Ecwiti BDdPRC	189	
2,471	Asedau Anniriaethol	1,910	21d
1,226	Dyledwyr Hirdymor BDdPRC	1,538	
<b>541,305</b>	<b>Asedau Hirdymor</b>	<b>619,510</b>	
48,546	Buddsoddiadau Byrdymor	45,525	31
2,500	Asedau a Ddelir i'w Gwerthu Rhestrau	2,500	24
527	Eiddo	469	
52,437	Dyledwyr Byrdymor	68,789	23
3,051	Arian Parod a'r Hyn sy'n Gyfwerth ag Arian Parod	38,580	31
4,564	Arian Parod BDdPRC	6,205	
125	Treth Ohiriedig BDdPRC	126	31
283	Asedau Ariannol BDdPRC	283	31
<b>112,033</b>	<b>Asedau Cyfredol</b>	<b>162,477</b>	
(4,703)	Gorddrafft yn y banc	(3,372)	31
(1,055)	Benthyca Byrdymor	(1,291)	31
(35,963)	Credydwy'r Byrdymor	(56,749)	25
(795)	Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen 1 flwyddyn	(4,610)	26
<b>(42,516)</b>	<b>Rhwymedigaethau Cyfredol</b>	<b>(66,022)</b>	
(3,305)	Darpariaethau sy'n ddyledus ar ôl 1 flwyddyn	(4,277)	26
(99,038)	Benthyca Hirdymor	(100,074)	31
	<b>Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill</b>		
(15,158)	PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	(14,129)	27
(4,217)	Credydwy'r Hirdymor (BDdPRC)	(2,385)	27
(298,770)	Rhwymedigaeth Pensiynau Net	(249,500)	30
(7,985)	Derbyniadau Cyfalaf Ymlaen Llaw	(8,872)	21h
<b>(428,473)</b>	<b>Rhwymedigaethau Hirdymor</b>	<b>(379,237)</b>	
<b>182,349</b>	<b>Asedau Net</b>	<b>336,728</b>	
	<b>Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy</b>		
9,772	Cronfa'r Cyngor	10,110	28b
82,848	Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi	106,733	28b
21,519	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	21,773	28a
288	Grantiau Cyfalaf Heb Eu Cymhwyso	6,047	
933	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy BDdPRC	1,364	
	<b>Cronfeydd Wrth Gefn Andefnyddiadwy</b>		29
148,639	Cronfa Wrth Gefn Ailbriso	203,699	29a
(298,770)	Cronfa Wrth Gefn Pensiynau	(249,500)	29b
221,025	Cyfrif Addasu Cyfalaf	240,672	29c
(697)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(687)	
(3,211)	Cyfrif Absenoldebau Digolledol Cronnol Byrdymor	(3,484)	
3	Cronfeydd Wrth Gefn Andefnyddiadwy BDdPRC	1	
<b>182,349</b>	<b>Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn</b>	<b>336,728</b>	



## Datganiad Llifoedd Arian Parod

2020-21 £'000		2021-22 £'000	
(9,414)	(Gwarged)/diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau	(15,234)	
(24,299)	Addasiadau i ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod	(40,687)	<b>35</b>
15,538	Addasiadau ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido	19,099	
<b>(18,175)</b>	<b>Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu</b>	<b>(36,822)</b>	<b>36</b>
40,755	Gweithgareddau Buddsoddi	21,610	<b>37</b>
(17,636)	Gweithgareddau Cyllido	(23,289)	<b>38</b>
<b>4,944</b>	<b>(Cynnydd) / Gostyngiad Net mewn Symiau Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod</b>	<b>(38,501)</b>	
(8,139)	Arian Parod a'r Hyn sy'n Gyferwerth ag Arian Parod ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd	(3,195)	
<b>(3,195)</b>	<b>Arian Parod a'r Hyn sy'n Gyferwerth ag Arian Parod ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd</b>	<b>(41,696)</b>	

Mae'r Datganiad Llifoedd Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n gyferwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Cyngor yn creu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n gyferwerth ag arian parod trwy ddsbarthu llifoedd arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido.





**Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol**



## Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Nodyn		Rhif y Dudalen
1	Polisiâu Cyfrifyddu	24
2	Dyfarniadau Tyngedfennol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu	35
3	Tybiaethau a Wnaed am y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill sy'n peri ansicrwydd tybiedig	36
4	Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	37
5	Nodyn ar y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	38
6	Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl eu Natur	39
	<b>Nodiadau ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	
7	Praeseptau ac Ardollau	41
8	Grant Cynnal Refeniw	41
9	Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)	41
10	Y Dreth Gyngor	41
11	Grantiau	42
12	Prydlesi	43
13	Menter Cyllid Preifat (PFI)	44
14	Trefniadau Cyfuno Cronfeydd Ariannol	44
15	Cydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion	45
16	Lwfansau Aelodau	48
17	Costau Archwilio Allanol	48
18	Cyfranogiad mewn Cydbwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd	48
19	Trafodion Partion Cysylltiedig	49
	<b>Nodiadau ar y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn</b>	
20	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	51
	<b>Nodiadau ar y Fantolen</b>	
21	Asedau Anghyfredol	54
22	Unedau Eiddo Buddsoddi	59
23	Dyledwyr Byrdymor	60
24	Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	60
25	Credydwyr Byrdymor	60
26	Darpariaethau	61
27	Rhwymedigaethau PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	61
28	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	62
29	Cronfeydd Wrth Gefn Andefnyddiadwy	64
30	Rhwymedigaethau Pensiwn, datgeliadau IAS 19	66
31	Datgeliadau ynghylch yr Offerynnau Ariannol	73
32	Addasiadau i Ffigyrau'r Cyfnod Blaenorol	78
33	Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd	82
34	Rhwymedigaethau Digwyddiadol	82
	<b>Nodiadau ar Lifoedd Arian</b>	
35	Addasiadau ar gyfer Symudiadau Nad Ydynt yn Arian Parod	83
36	Gweithgareddau Gweithredu	83
37	Gweithgareddau Buddsoddi	83
38	Gweithgareddau Cyllido	83

## 1. Polisiâu Cyfrifyddu

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2022. Mae Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018 yn ei gwneud ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon Blyneddol yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys y *Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) 2021-22 a'r Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau 2021-22* a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cost hanesyddol yn bennaf yw'r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon, a hwnnw wedi'i addasu trwy ailbriso categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

### 1.2 Safonau sydd wedi cael eu cyhoeddi ond heb gael eu mabwysiadu eto

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22 (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig newid i gyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond heb gael ei mabwysiadu eto. Ar ddyddiad y fantolen nid oes safonau perthnasol newydd na diwygiadau perthnasol i safonau presennol sydd wedi cael eu cyhoeddi ond sydd heb gael eu mabwysiadu eto gan y Cod a fydd yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, darperir y manylion canlynol ynghylch IFRS 16 – Prydlesi er gwybodaeth.

Safon	Dyddiad y daw i rym	Manylion pellach
IFRS 16 Prydlesi	01 Ebrill 2022	Mae'r Safon yn dileu dosbarthiadau prydlesi blaenorol prydlesi gweithredu a chyllid a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n lesddeiliaid gydnabod pob prydles ar eu mantolen fel asedau hawl defnyddio (mae eithriadau ar gyfer prydlesi byrdymor a gwerth isel) gyda rhwymedigaeth gyfatebol mewn perthynas â'r brydles sy'n cynrychioli rhwymedigaeth y lesddeiliad i wneud taliadau prydles ar gyfer yr ased. Fodd bynnag, dylid nodi bod CIPFA/LASAAC wedi gohirio gweithredu IFRS 16 ar gyfer llywodraeth leol unwaith eto, a hynny tan 1 Ebrill 2024.

### 1.3 Croniadau incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid dim ond pan fo taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn arbennig:

- Cydnabyddir referniw o werthu nwyddau pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo risgiau a gwobrwyon sylweddol perchnogaeth i'r prynwr a phan fo'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Cyngor.
- Cydnabyddir referniw o ddarparu gwasanaethau pan all y Cyngor fesur yn ddibynadwy pa ganran o'r trafodiad a gwblhawyd a phan fo'n debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Cyngor.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio - lle mae bwllch rhwng y dyddiad y daw cyflenwadau i law a'r dyddiad y cânt eu defnyddio, maent yn cael eu cario fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddi a llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau yn eu tro fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llifoedd arian a osodir neu ei bennir gan y contract.
- Pan fydd referniw a gwariant wedi cael eu cydnabod ond bod arian parod heb ddod i law nac wedi cael ei dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Lle gall fod amhariad ar ddyledion, mae'r balans dyledwyr yn cael ei leihau yn ôl y gwahaniaeth rhwng y swm cario a llifoedd arian diwygiedig yn y dyfodol a chodir ar referniw am yr amhariad arnynt.

## 1.4 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

### Darpariaethau

Gwneir darpariaethau lle mae rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, yn ôl pob tebyg, yn gofyn am setliad drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Er enghraifft, gall y Cyngor fod yn rhan o achos llyso a allai yn y pen draw arwain at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir am ddarpariaethau fel traul i'r llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth ac maent yn cael eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau yn y pen draw, codir amdanynt ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chario yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a lle mae'n dod yn llai na thebygol bellach y bydd gofyn trosglwyddo buddion economaidd (neu lle gwneir setliad is nag a ragwelwyd), mae'r ddarpariaeth yn cael ei gwrthdroi a'i chredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Lle mae disgwyl i rywfaint neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond os yw bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn os yw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol.

### Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi lle mae rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor na fydd ei fodolaeth ond yn cael ei chadarnhau pan fydd pethau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor yn digwydd neu'n peidio â digwydd. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ond yn hytrach fe'u datgelir mewn nodyn ar y cyfrifon.

### Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn codi lle mae rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor na fydd ei fodolaeth ond yn cael ei chadarnhau pan fydd pethau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor yn digwydd neu'n peidio â digwydd.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ond yn hytrach fe'u datgelir mewn nodyn ar y cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnllif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

## 1.5 Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu i dalu am hapddigwyddiadau. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu drwy briodoli symiau allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo gwariant sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn yn cael ei ysgwyddo, fe'i codir ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna mae'r gronfa wrth gefn yn cael ei phriodoli yn ôl i falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes codiant net yn erbyn y dreth gyngor am y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddion cyflogeion ac ymddeol ac maent yn gronfeydd wrth gefn 'annefnyddiadwy' fel a nodir yn Nodyn 29 ar y cyfrifon.



## 1.6 Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth

Pa un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, trwy randaliadau neu yn ôl-ddyledus, mae grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd partion yn cael eu cydnabod fel symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau, ac
- y bydd y grant / cyfraniad yn cael ei dderbyn.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bod yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi cael eu bodloni. Amodiadau yw'r amodau sy'n nodi ei bod yn ofynnol i'r buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol a ymgorfforir yn yr ased a gaffaelwyd gan ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad gael eu/ei d(d)efnyddio gan y derbynnydd fel a nodwyd, neu rhaid dychwelyd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol i'r trosglwyddydd.

Mae arian a flaendalwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau ar eu cyfer wedi cael eu bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwy. Pan fydd amodau'n cael eu bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm o Drethiant a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw'r grant wedi cael ei ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb Eu Cymhwysio. Mae symiau yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb Eu Cymhwysio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y maent wedi cael eu cymhwysio i ariannu gwariant cyfalaf.

## 1.7 Buddion cyflogeion

### Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion byrdymor i gyflogeion yw'r rhai sy'n ddyledus i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maen nhw'n cynnwys buddion fel tâl a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb oherwydd salwch â thâl a bonysau i gyflogeion cyfredol. Cydnabyddir y rhain fel traul ar gyfer gwasanaethau yn y flwyddyn pan fo'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Cyngor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl i wyliau a enillwyd gan gyflogeion ond sydd heb ei chymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol y gall gweithwyr ei chario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cronriad yn cael ei godi ar y llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ond yna'n cael ei wrthdroi allan trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel bod buddion gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

### Buddion Terfynu

Mae buddion terfynu'n symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth Swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gan Swyddog i dderbyn cynnig i golli ei swydd yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail cronriadau ar y llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, pan fydd y Cyngor yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth Swyddog neu grŵp o Swyddogion neu wneud cynnig i annog Swyddog i golli swydd yn wirfoddol.

Lle mae buddion terfynu'n cynnwys chwyddo pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi ar falans Cronfa'r Cyngor am y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae'n ofynnol gwneud dyraniadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu sy'n chwyddo pensiwn a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

## Buddion Ar Ôl Cyflogaeth

Mae cyflogeion y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân. Roedd y ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i aelodau (lymp-symiau a phensiynau ymddeol), a enillwyd wrth i gyflogeion weithio i'r Cyngor.

Y *Cynllun Pensiwn Athrawon*, a weinyddir gan y gwasanaeth Pensiynau Athrawon (Teachers' Pensions) ar ran yr Adran Addysg (DfE). Mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun hwn yn golygu nad yw rhwymedigaethau ar gyfer buddion yn gallu cael eu hadnabod yn benodol i'r Cyngor fel arfer. Felly rhoddir cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu budd-daliadau yn y dyfodol yn cael ei chydabod yn y Fantolen. Codir ar y llinell Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r gwasanaeth Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

Y *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol* – mae gan gyflogeion eraill hawl i fod yn aelodau o Gronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir cyfrif am y Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun buddion diffiniedig:

- Caiff rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn y gellir eu priodoli i'r Cyngor eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan gyflogeion, yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion, ac amcanestyniadau o enillion rhagamcanol ar gyfer cyflogeion cyfredol.
- Mae rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd disgownt.
- Caiff asedau'r gronfa bensiwn y gellir eu priodoli i'r Cyngor eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
  - Gwarannau a ddyfynnwyd – y pris cynnig cyfredol
  - Gwarantau nas dyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
  - Eiddo – gwerth y farchnad
- Mae'r newid yn rhwymedigaethau net pensiynau yn cael ei ddadansoddi i mewn i'r cydrannau canlynol:
  - Cost cyfredol gwasanaeth - y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r cyflogeion yn gweithio iddynt
  - Cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio cynllun neu gwtogi arno y mae ei effaith yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – fe'i debydir i'r Gwasanaethau Canolog yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
  - Llog net ar y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net, h.y. traul llog net i'r Cyngor – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigl amser a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn trwy gymhwysu'r gyfradd disgownt a ddefnyddir i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniad a thaliadau buddion.
  - Ail-fesuriadau sy'n cynnwys:
- Yr adenillion ar asedau'r cynllun – heb gynnwys symiau a gynhwysir yn y llog net ar y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net – a godir ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall:
- Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â thybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwaraidd wedi diweddarau eu tybiaethau – a godir ar y gronfa wrth gefn Pensiynau ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall:

- Cyfraniadau i'r gronfa bensiwn – arian a dalwyd fel cyfraniad cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; ni roddir cyfrif amdanynt fel traul.
- O ran buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi ar falans Cronfa'r Cyngor am y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy i'r gronfa ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o ganlyniad i'r gofyniad i roi cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llifoedd arian yn hytrach nag fel buddion a enillwyd gan gyflogeion.
- Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig hefyd i wneud penderfyniad dewisol i ddyfarnu buddion ymddeol yn achos ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a rhoddir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rhai a gymhwysir i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### 1.8 TAW

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Nid yw TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i chynnwys o fewn incwm.

### 1.9 Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth

Yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Cod) dangosir gorbenion a gwasanaethau cymorth yn y gwasanaeth perthnasol lle cânt eu hysgwyddo ac nid ailgudir amdanynt ar feysydd gwasanaeth a gefnogwyd. Dangosir unrhyw incwm mewnol o ganlyniad i drafodion rhwng adrannau yn llinell y gwasanaeth sy'n cyflenwi gyda'r codiant cyfatebol yn cael ei ddangos yn llinell y gwasanaeth sy'n derbyn.

### 1.10 Asedau Anniriaethol

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am feddalwedd fel asedau anniriaethol i'r graddau nad yw'r meddalwedd yn rhan annatod o system TG benodol ac y rhoddir cyfrif amdano fel rhan o'r eitem caledwedd yn Eiddo, Offer a Chyfarpar. Yr ased anniriaethol mwyaf sylweddol yw costau datblygu a thrwydded meddalwedd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Rhoddir oes ddefnyddiol benodol i bob meddalwedd, yn seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r meddalwedd fod o ddefnydd i'r Cyngor. 8 mlynedd yw'r oes ddefnyddiol a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Codir am amorteiddiad yr ased anniriaethol ar sail linol dros yr oes ddefnyddiol a hynny ar y llinell Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### 1.11 Eiddo, Offer a Chyfarpar

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail cronladau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Codir am wariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i ddwyn buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. atgyweiriadau a chynnal a chadw) fel traul pan gaiff ei ysgwyddo.

Mae'r holl wariant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gydnabod ni waeth beth fo'i werth. Mae gwariant islaw £40,000 yn cael ei ystyried yn wariant nad yw'n gwella ac mae amhariad arno ar unwaith oni bai y byddai cyfanswm y gwariant, yn gronnus dros fwy nag un flwyddyn, yn fwy na'r gwerth hwn.

## Mesur

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, sy'n cynnwys ei bris prynu a'r holl wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i gyflwr gweithio ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig. Yna mae asedau'n cael eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- **Tir ac adeiladau** – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV)
- **Unedau eiddo gweithredol heb fod yn arbenigol** – gwerth defnydd presennol (EUV)
- **Unedau eiddo gweithredol arbenigol (megis ysgolion)** – cost amnewid ar ôl dibrisiant (DRC)
- **Cerbydau, offer a chyfarpar** – cost hanesyddol ar ôl dibrisiant
- **Asedau cymunedol** – cost hanesyddol
- **Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu** – cost hanesyddol (hyd nes y byddan nhw'n dod yn weithredol)
- **Asedau seilwaith** – cost hanesyddol ar ôl dibrisiant
- **Asedau dros ben ac unedau eiddo buddsoddi** – gwerth teg
- **Asedau a ddelir i'w gwerthu** – yr isaf rhwng y swm cario a gwerth teg namyn costau gwerthu

Ystyri'r mai cost asedau a gaffaelwyd heblaw trwy brynu yw ei werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, lle mae ased yn cael ei gaffael trwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a ildwyd gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ysgwyddwyd tra bo asedau wrthi'n cael eu hadeiladu.

## Ailbrisiadau

Mae asedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl gwerth teg neu werth cyfredol yn cael eu hailbrisi'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario yn berthnasol wahanol i'w gwerth teg na'u gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir ailbrisiadau o asedau eiddo'r Cyngor ar sail rhaglen dreigl 3 blynedd. Cynhaliwyd prisiadau ychwanegol o asedau yn 2021-22 i sicrhau bod y gwerthoedd a ddelir yn y fantolen yn berthnasol gywir. Dim ond yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisiu y cydnabyddir enillion ailbrisiu ers 1 Ebrill 2007, dyddiad ei sefydlu. Mae enillion ailbrisiu blaenorol wedi cael eu cydgrynhoi fel rhan o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

## Amhariad

Aseir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn i benderfynu a oes unrhyw arwydd y gall fod amhariad ar ased. Pan fo arwyddion yn bodoli ac yr amcangyfrifir y bydd unrhyw wahaniaethau posibl yn berthnasol, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased a, lle mae hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg. Lle bu enillion ailbrisiu blaenorol yn erbyn yr ased a ddelir yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisiu, mae unrhyw golled ddilydol yn cael ei phriodoli i ddechrau fel lleihad yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisiu sydd wedi cronni gydag unrhyw weddill yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant ar asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriadau ar gyfer:

- Asedau treftadaeth
- Asedau heb oes ddefnyddiol benodol y gellir ei phennu megis tir rhydd-ddaliadol
- Asedau nad ydynt ar gael eto i'w defnyddio h.y. asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, ac asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cyfrifir dibrisiant yn ôl gwerth yr ased ar ddechrau'r flwyddyn ac ar y seiliau canlynol:

Ased	Polisi	Oes
Tir	Dim dibrisiant yn cael ei godi	Amherthnasol
Adeiladau	Dibrisiant llinol ar yr oes sy'n weddill yn ôl yr amcangyfrif	Fel a gynghorir gan Brisydd (rhwng 1 a 79 mlynedd)
Cerbydau, offer a chyfarpar	Dibrisiant llinol ar yr oes sy'n weddill yn ôl yr amcangyfrif	3 - 10 mlynedd
Seilwaith - Pontydd	Dibrisiant llinol ar yr oes sy'n weddill yn ôl yr amcangyfrif	30 mlynedd
Seilwaith - Ffyrdd	Dibrisiant llinol ar yr oes sy'n weddill yn ôl yr amcangyfrif	15 mlynedd
Seilwaith - Arall	Dibrisiant llinol ar yr oes sy'n weddill yn ôl yr amcangyfrif	1 - 30 mlynedd

Mae enillion ailbriso yn cael eu dibrisio hefyd, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant ar werth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi gallu cael ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Wrth Gefn Ailbriso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### Cydrannu

Caiff asedau a brynwyd neu eu hailbriso yn ystod y flwyddyn eu hadolygu i gadarnhau pa un a fydd gan unrhyw ran o'r ased oes ddefnyddiol sylweddol wahanol ac effaith berthnasol ar ddibrisiant. Os felly, bydd yr ased yn cael ei gydrannu a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu priod oesoedd defnyddiol. O fewn portffolio asedau'r Cyngor ceir nifer o ddsbarthiadau asedau lle nad ystyrir cydrannu, gan gynnwys:

- Offer – gan yr ystyrir bod hyn yn amherthnasol.
- Dosbarthiadau asedau nad ydynt yn cael eu dibrisio – megis tir, eiddo buddsoddi, asedau treftadaeth, asedau cymunedol ac asedau a ddelir i'w gwerthu.

### Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ei ddefnydd parhaus, mae'n cael ei ailddosbarthu fel Ased a Ddelir i'w Werthu. Y meini prawf ar gyfer cydnabod asedau fel rhai a ddelir i'w gwerthu yw:

- Eu bod ar gael i'w gwerthu ar unwaith yn y cyflwr presennol
- Bod eu gwerthu'n hynod debygol
- Eu bod yn cael eu marchnata'n frwd
- Y disgwylir cwblhau'r gwerthiant o fewn 12 mis.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad sydd dros £10,000 eu categorio fel derbyniadau cyfalaf.

#### 1.12 Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu gwerth diwyllianol, amgylcheddol neu hanesyddol. Cydnabyddir a mesurir Asedau Treftadaeth (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbriso) yn unol â pholisiau cyfrifyddu'r Cyngor ar eiddo, offer a chyfarpar. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei Regalia Dinesig a nifer o baentiadau yn y Fantolen yn ôl gwerth yswiriant. Ychwanegwyd gwerth y paentiadau at y Fantolen yn ystod 2017-18 yn seiliedig ar brisiad yswiriant a wnaed gan briswyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn ôl y Cod nid oes cyfnod lleiaf rhagnodedig rhwng prisiadau ac nid yw'r Cyngor yn bwriadu adbriso ei Asedau Treftadaeth yn y dyfodol agos oni bai bod tystiolaeth o amhariad fel dirywiad neu ddifrod ffisegol, neu amheuan ynghylch eu dilysrwydd yn codi.



### 1.13 Codiannau ar refeniw ar gyfer asedau anghyfredol

Debydir y symiau canlynol i wasanaethau i gofnodi cost go iawn dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- Colledion ailbriso ac amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronol yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbriso y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi treth gyngor i ariannu colledion dibrisiant, ailbriso neu amhariad neu amorteiddiad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud darpariaeth ddarvoudus flynyddol o refeniw i gyfrannu tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthycu ar y cyfan. Manylir ar hyn yn Natganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol y Cyngor, ac mae'n gwahaniaethu rhwng gwariant cyfalaf â chymorth, gwariant cyfalaf heb gymorth, a Phrydlesi Cyllid / PFI. Felly, mae colledion dibrisiant, ailbriso ac amhariad ac amorteiddiadau yn cael eu disodli gan y *Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)* hon trwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau. Mae'r Cyngor yn codi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar sail linol dros 45 mlynedd. Mae hyn yn sicrhau bod costau gwariant cyfalaf â chymorth yn cael eu gwasgaru'n gyfartal dros oes asedau, a bod y ddyled yn cael ei diddymu'n llawn o fewn deugain a phump o flynyddoedd.

### 1.14 Gwariant Refeniw a Ariennir o Adnoddau Cyfalaf o dan Statud (REFCUS)

Codwyd am wariant a ysgwyddwyd yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Mae enghreifftiau o wariant o'r fath yn cynnwys grantiau gwella cartrefi, megis Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, grantiau gwella trefi ac astudiaethau dichonoldeb tir. Lle mae'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chost y rhain o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthycu, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor. Pan fo'r gwariant hwn yn cael ei ariannu â grantiau neu gyfraniadau, caiff hwn hefyd ei briodoli i'r maes gwasanaeth perthnasol lle codwyd am y gwariant.

### 1.15 Prydlesi

Dosberthir prydlesi fel prydlesi cyllid lle mae telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrwyon sy'n digwydd deillio o berchenogaeth ar yr eiddo, offer neu gyfarpar o'r lesydd i'r lesddeiliad. Mae pob prydles arall yn cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredu.

Lle mae prydles yn cwmpasu tir ac adeiladau, mae'r elfennau tir ac adeiladau yn cael eu hystyried ar wahân i'w dosbarthu.

Mae trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad yn cael eu cyfrif o dan y polisi hwn lle mae cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol.

### Y Cyngor fel Lesddeiliad

#### Prydlesi Gweithredu

Caiff rhent a dalwyd o dan brydlesi gweithredu ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, offer neu gyfarpar sydd ar brydles. Codir costau ar sail linol dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â phatrwm y taliadau (e.e. os oes cyfnod heb rent ar gychwyn y brydles).

## Y Cyngor fel Lesydd

### Prydlesi Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail linol dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â phatrwm y taliadau (e. g. os telir premiwm ar gychwyn y brydles). Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynol a ysgwyddir wrth negodi a threfnu'r brydles at swm cario'r ased perthnasol ac fe'u codir fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

### 1.16 Offerynnau ariannol

Mae offeryn ariannol yn gontract sy'n achosi ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn golygu cyfnewid, fel y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r Llywodraeth, yn achosi offerynnau ariannol.

#### Asedau ariannol

Mae ased ariannol yn hawl i fuddion economaidd a reolir gan y Cyngor yn y dyfodol a gynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i gael arian parod neu asedau ariannol eraill neu hawl i gyfnewid asedau ariannol a rhwymedigaethau gydag endid arall a allai fod yn ffafriol i'r Cyngor. Dosberthir asedau ariannol yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri phrif ddsbarth o asedau ariannol a gaiff eu mesur yn ôl:

- cost amorteiddiedig
- gwerth teg trwy elw neu golled (FVPL), a
- gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr eraill (FVOCI).

Model busnes y Cyngor yw ei fod yn dal buddsoddiadau i gasglu llifoedd arian cytundebol. Felly, dosberthir asedau ariannol yn ôl cost amorteiddiedig gan eu bod yn cael eu dal i dalu'r prifswm a llog ac at y diben hwnnw yn unig.

#### Asedau Ariannol a ddelir yn ôl Cost Amorteiddiedig

Caiff asedau ariannol a fesurir yn ôl cost amorteiddiedig eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac fe'u mesurir i ddechrau yn ôl gwerth teg, sef cost y trafodiad fel arfer. Fe'u mesurir wedyn yn ôl eu cost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn cynrychioli incwm buddsoddi a llog derbyniadwy. Ar gyfer yr asedau ariannol a ddelir gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd ag incwm buddsoddi a llog cronol).

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi ar ddatgydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

#### Model Colledion Credyd Disgwyliedig

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir yn ôl cost amorteiddiedig, naill ai ar sail 12 mis neu ar sail oes. Dim ond colledion oes sy'n cael eu cydnabod ar gyfer symiau derbyniadwy masnach (dyledwyr) a ddelir gan y Cyngor.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrifo i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd y llifoedd arian yn y dyfodol yn digwydd oherwydd y gallai'r benthyciwr fethu â chyflawni eu rhwymedigaethau. Mae risg credyd yn chwarae rhan hanfodol wrth asesu colledion. Lle mae risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i offeryn gael ei gydnabod i ddechrau, tybir colledion ar sail oes. Pan nad yw'r risg wedi cynyddu'n sylweddol neu pan fo'n parhau'n isel, asesir colledion ar sail colledion disgwyliedig dros 12 mis.

## Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaeth ariannol yn rhwymedigaeth i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor a gall gael ei chynrychioli gan rwymedigaeth gytundebol i ddarparu asedau arian parod neu ariannol neu gan rwymedigaeth i gyfnewid asedau ariannol a rhwymedigaethau gydag endid arall a allai fod yn anffafriol i'r Cyngor. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg ac yn cael eu cario yn ôl eu cost amorteiddiedig i ddechrau. Mae codiannau blynyddol ar yr Adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. I'r rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n weddill ynghyd ag unrhyw log a gronnwyd a llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthycia.

Mae gan y Cyngor dri benthyciad Opsiwn Echwynnwr Opsiwn Benthyciwr (LOBOs) gyda chyfraddau llog fesul cam. Defnyddiwyd y gyfradd llog a oedd mewn grym ar gyfer y rhain fel bod y rhain yn symiau wedi'u hail-fesur ar gyfer y LOBOs ar y Fantolen.

Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol yn ôl Gwerth Teg, ond mae'n ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth gwerth teg fel y bo'n briodol. Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yn cael eu categoreiddio yn unol â'r tair lefel ganlynol:

- Mewnbynnau Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau heblaw prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi'u cynnwys o fewn Lefel 1 sy'n arsylladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anarsylladwy.

### 1.17 Rhestrau Eiddo a Chontractau Hirdymor

Cynhwysir rhestrau eiddo yn y Fantolen ar isaf rhwng cost a gwerth realeiddiadwy net. Mae gwaith ar y gweill yn amodol ar brisiad interim ar ddiwedd y flwyddyn ac fe'i cofnodir yn y Fantolen yn ôl cost ac unrhyw elw y gellir ei briodoli'n rhesymol i'r gwaith.

Rhoddir cyfrif am gontractau hirdymor ar sail codi ar y Gwarged neu Ddiffyg ar ddarparu Gwasanaethau am werth gwaith a gwasanaethau a gafwyd o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 1.18 Mentrau Cyllid Preifat (PFI)

Cytundebau i dderbyn gwasanaethau yw contractau PFI, lle mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod yr eiddo, offer a chyfarpar y mae eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau ar gael yn trosglwyddo i'r contractwr PFI. Gan y bernir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y cynllun PFI a chan y bydd perchnogaeth ar yr eiddo, offer a chyfarpar yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contractau am ddim tâl ychwanegol, mae'r Cyngor yn cario'r asedau a ddefnyddir o dan y contractau hyn ar ei Fantolen fel rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar.

Cafodd y gydnabyddiaeth wreiddiol i'r asedau hyn ei mantoli trwy gydnabod rhwymedigaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am y buddsoddiad cyfalaf.

Mae Asedau Anghyfredol a gydnabyddir ar y Fantolen yn cael eu hailbriso a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, offer a chyfarpar a berchnogir gan y Cyngor.

Mae'r symiau sy'n daladwy i weithredwyr PFI bob blwyddyn yn cael eu dadansoddi fel a ganlyn:-

- yn ôl gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – gyda'r swm yn cael ei ddebydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- yn ôl cost cyllid – codiant llog ar y rhwymedigaeth sy'n weddill yn y Fantolen, gyda'r swm yn cael ei ddebydu i'r adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

- yn ôl taliad tuag at y rhwymedigaeth – gyda'r swm yn cael ei gymhwyso i leihau'r rhwymedigaeth yn y Fantolen tuag at y gweithredwr PFI

Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn berthnasol i asedau PFI. Mae'r Polisi Ddarpariaeth Isafswm Refeniw Flynnyddol ar gyfer y Cyngor wedi barnu bod y codiant hwn yn cyfateb i'r rhwymedigaeth prydles cyllid a leihawyd ar gyfer y flwyddyn.

### 1.19 Trefniadau ar y Cyd

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o drefniadau ar y cyd, gan gynnwys Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) sy'n cynnwys 10 Awdurdod Partner: Blaenau Gwent; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Sefydlwyd y Cydbwyllgor i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ystod o raglenni sydd wedi'u bwriadu i sicrhau twf economaidd cynaliadwy i'r rhanbarth er mwyn gwella bywydau pawb yn y gymuned, gan gynnwys cynyddu cysylltedd a gwella seilwaith ffisegol a digidol. Dosberthir y cyfraniadau i'r Cydbwyllgor fel Gwariant Refeniw a Ariennir o Adnoddau Cyfalaf o dan Statud (REFCUS). Mae'r Cyngor wedi cydgrynhoi incwm a'r gwariant, ac asedau a rhwymedigaethau'r Cydbwyllgor. Mae'r Cyngor yn parhau i fod â chyfrifoldebau gweinyddol ar gyfer Amlogsgfa Llangrallo ac mae datganiadau ariannol annibynnol yn parhau i gael eu paratoi a'u hadolygu ar gyfer y cydbwyllgor hwn. Mae gweithgareddau trefniant ar y cyd Amlogsgfa Llangrallo wedi'u heithrio o ddatganiadau ariannol endid unigol y Cyngor ar sail perthnasedd asedau a'r boblogaeth.

### 1.20 Incwm o'r Dreth Gyngor

Dangosir yr holl incwm o'r Dreth Gyngor yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor gyda phraeseptau'r brif braeseptwyr (Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru yn bennaf) yn cael eu cynnwys fel gwariant. Dangosir Incwm o'r Dreth Gyngor fel ffigur gros yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gydag unrhyw symiau a ddyrannwyd o ganlyniad i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu cydnabod fel traul o fewn costau net gwasanaethau.

### 1.21 Addasiadau i Ffigyrau'r Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau i ffigyrau'r cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Rhoddir cyfrif yn rhagolygol am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd yn y dyfodol yr effeithir arnynt gan y newid ac nid ydynt yn arwain at addasiad i ffigyrau'r cyfnod blaenorol. Mae gwallau perthnasol a ddarganfuwyd yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol. Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifyddu neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Lle gwneir newid, fe'i cymhwysir yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wastad wedi cael ei gymhwyso.

### 1.22 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Cynrychiolir arian parod gan arian parod mewn llaw ac adneuron gyda sefydliadau ariannol yn ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu ymhen dim mwy na mis neu lai o'r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau hysbys o arian parod gyda risg anarwyddocaol o newid mewn gwerth. Yn y Datganiad Llifoedd Arian, dangosir arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod fel ffigur net nad yw'n cynnwys gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar alw ac maent yn rhan annatod o reolaeth y Cyngor ar arian parod.

### 1.23 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiadau:

- y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd - mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid yw digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

### 1.24 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r unedau eiddo a ddefnyddir dim ond i ennill rhent a/neu ar gyfer adbrisant cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os caiff ei ddal i'w werthu. Caiff unedau eiddo buddsoddi eu mesur i ddechrau yn ôl cost ac wedyn yn ôl gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Nid yw unedau eiddo'n cael eu dibrisio ond maent yn cael eu hailbriso'n flynyddol yn ôl amodau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae enillion a cholledion ar ailbriso'n cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn cael ei chymhwyso i enillion a cholledion wrth waredu.

Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddyd i briswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiau yn flynyddol ar 31 Rhagfyr ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor yn unol ag IFRS13. Pan na ellir mesur gwerthoedd teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (hynny yw **mewnbynnau Lefel 1**), mesurir eu gwerth teg gan ddefnyddio'r technegau prisio canlynol:

**Mewnbynnau Lefel 2:** prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar y dyddiad prisio

**Mewnbynnau Lefel 3:** yn seiliedig ar y prisiau diweddaraf, wedi'u haddasu os oes angen trwy ddefnyddio mynegeion ac adolygiad sy'n ystyried amhariadau

Prisiwyd y rhan fwyaf o'r unedau eiddo buddsoddi ar sail mewnbynnau Lefel 2 gyda nifer yn cael eu prisio ar sail mewnbynnau Lefel 3.

Mae rhenti a dderbyniwyd mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn cael eu credydu i Gost net Gwasanaethau ac yn arwain at enillion i Falans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbriso a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Mae'r enillion a'r colledion felly'n cael eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf a hefyd (ar gyfer unrhyw enillion gwerthu sy'n fwy na £10,000) y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

### 1.25 Ysgolion yr Awdurdod Lleol

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ar gyfer ysgolion a gynhelir gan Gynghorau Lleol (h.y. y categorïau hynny o ysgolion a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r Cyngor. Mae'r Cod hefyd yn amodi bod asedau, rhwymedigaethau a llifoedd arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol y Cyngor (ac nid y Cyfrifon Grŵp). Felly, mae trafodion, llifoedd arian a balansau ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o'r datganiadau ariannol fel pe baent yn perthyn i'r Cyngor.

### 2. Dyfarniadau Tyngedfennol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifyddu a nodir uchod, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud rhai dyfarniadau am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Y dyfarniadau tyngedfennol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon yw:



Mae cryn ansicrwydd ynglŷn â lefelau ariannu ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dyraniadau cyllid dangosol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, mae'r rhain ar lefel Cymru gyfan nid ar lefel awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigonol eto i roi arwydd y gallai fod amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r gwasanaethau a ddarperir.

Ystyrir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan y cytundeb allanoli ar gyfer darparu Ysgol Uwchradd ym Maesteg a'i fod hefyd yn rheoli gwerth gweddillol yr ysgol ar ddiwedd y cytundeb. Mae'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer cynlluniau PFI a chontractau tebyg wedi cael eu cymhwyso i'r trefniant ac mae'r Ysgol wedi cael ei chydabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar Fantolen y Cyngor ac fe'i nodir ar wahân o dan nodyn 21c. Yr ysgol yw unig ased PFI y Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o fuddiannau mewn endidau eraill; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn ddigon perthnasol i'w cynnwys o fewn y datganiadau ariannol cyfunol wrth adolygu gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Cod, gwnaed ystod o ddatgeliadau naratif mewn adrannau eraill o'r cyfrifon.

### 3. Tybiaethau a Wnaed am y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill sy'n peri ansicrwydd tybiedig

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar dybiaethau a wnaed gan y Cyngor am y dyfodol neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn berthnasol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn Mantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2022 y ceir risg arwyddocaol y byddant yn cael eu haddasu'n berthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

#### Eiddo, Offer a Chyfarpar

Mae asedau'r Cyngor yn cael eu hailbrizio trwy raglen dreigl 3 blynedd. Mae gwerth yr asedau hynny'n seiliedig ar gyfrifiadau a thechnegau amcangyfrif sy'n dilyn canllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), ac yn unol ag IFRS. Mae ailbrizio yn ystyried gwerth a chyflwr yr ased, cydrannau perthnasol a hefyd dad-gydnabyddiaeth lle bo hynny'n briodol. Cyflawnwyd prisiau ychwanegol yn y flwyddyn gyfredol i sicrhau bod yr asedau yn y fantolen yn berthnasol gywir.

#### Dibrisiant Eiddo, Offer a Chyfarpar

Mae asedau'n cael eu dibrisio dros oesoedd defnyddiol sy'n ddibynol ar dybiaethau am lefel y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a fydd yn cael ei ysgwyddo mewn perthynas ag asedau unigol. Gall yr hinsawdd economaidd sydd ohoni arwain at orfod lleihau gwariant ar waith atgyweirio a chynnal a chadw gan felly fwrw amheuaeth ar yr oesoedd defnyddiol a aseiniwyd i asedau. Os bydd oes ddefnyddiol asedau yn cael ei lleihau, mae dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario'r asedau'n gostwng.

#### Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu

Amcangyfrifon Gwerth Teg:

Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddyd i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiau ar 31 Rhagfyr 2021 ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor ac fe brisiwyd y rhain yn unol ag IFRS13.

Pan na ellir mesur gwerthoedd teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (**mewnbynnau Lefel 1**), mesurir eu gwerth teg gan ddefnyddio'r technegau prasio canlynol:

**Mewnbynnau Lefel 2:** prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y fantolen;

**Mewnbynnau Lefel 3:** prisiau yn seiliedig ar y prisiau diweddaraf wedi'u haddasu i'r prisiad cyfredol trwy ddefnyddio mynegeion ac adolygiad ar gyfer amhariadau.

Lle y bo'n bosibl, mae'r mewnbynnau i'r technegau prisio hyn yn seiliedig ar ddata arsylladwy, ond lle nad yw hyn yn bosibl mae gofyn gwneud dyfarniad wrth sefydlu gwerthoedd teg. Mae'r dyfarniadau hyn yn nodweddiadol yn cynnwys ystyriaethau fel ansicrwydd a risg. Gallai newidiadau mewn tybiaethau a ddefnyddir effeithio ar y gwerth teg. Defnyddiodd y priswyr allanol y technegau prisio mwyaf priodol i bennu gwerth teg.

### Rhwymedigaeth Pensiynau

Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddir, ar ba gyfradd y rhagamcanir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol yn rhoi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y tybiaethau sydd i'w cymhwyso.

### 4. Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

2020-21				2021-22		
Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Gronfa'r Cyngor Wedi'i Ailddatgan	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a Chyfrifyddu a throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (Nodyn 5)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Gronfa'r Cyngor	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a Chyfrifyddu a throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (Nodyn 5)	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
120,747	1,560	122,307	Addysg a Chymorth i Deuluoedd	128,118	(4,598)	123,520
72,654	4,630	77,284	Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	70,395	8,390	78,785
27,849	8,672	36,521	Cymunedau	28,456	11,399	39,855
17,313	3,797	21,110	Y Prif Weithredwr	18,184	5,345	23,529
38,417	(22,735)	15,682	Gwasanaethau Ar Draws y Cyngor	47,096	(23,235)	23,861
	(242)	(242)	Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)		(218)	(218)
<b>276,980</b>	<b>(4,318)</b>	<b>272,662</b>	<b>Cost Net Gwasanaethau</b>	<b>292,249</b>	<b>(2,917)</b>	<b>289,332</b>
(277,412)	(4,853)	(282,265)	Incwm a Gwariant Arall	(292,587)	(11,530)	(304,117)
	189	189	Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)		(449)	(449)
<b>(432)</b>	<b>(8,982)</b>	<b>(9,414)</b>	<b>Gwarged neu Ddiffyg</b>	<b>(338)</b>	<b>(14,896)</b>	<b>(15,234)</b>
9,340			Balans Agoriadol Cronfa'r Cyngor	9,772		
432			Gwarged neu (Ddiffyg) ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn	338		
<b>9,772</b>			<b>Balans Cau Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth</b>	<b>10,110</b>		

## 5. Nodyn ar y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

<b>Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu 2020-21 Wedi'u Hailddatgan</b>				
Addasiadau o Gronfa'r Cyngor i bennu'r symiau yn y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Nodyn 1)	Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau (Nodyn 2)	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg a Chymorth i Deuluoedd	6,846	4,806	(10,092)	1,560
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	813	3,964	(147)	4,630
Cymunedau	6,120	1,854	698	8,672
Y Prif Weithredwr	1,688	1,726	383	3,797
Gwasanaethau Ar Draws y Cyngor	(2,918)	-	(19,817)	(22,735)
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)			(242)	(242)
<b>Cost net gwasanaethau</b>	<b>12,549</b>	<b>12,350</b>	<b>(29,217)</b>	<b>(4,318)</b>
Incwm a gwariant arall o'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	(12,506)	6,460	1,193	(4,853)
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)			189	189
<b>Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg Cronfa'r Cyngor a Gwarged neu Ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>43</b>	<b>18,810</b>	<b>(27,835)</b>	<b>(8,982)</b>

<b>Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu 2021-22</b>				
Addasiadau o Gronfa'r Cyngor i bennu'r symiau yn y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Nodyn 1)	Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau (Nodyn 2)	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg a Chymorth i Deuluoedd	(6,290)	9,060	(7,368)	(4,598)
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	29	7,452	909	8,390
Cymunedau	7,763	3,634	2	11,399
Y Prif Weithredwr	1,565	3,504	276	5,345
Gwasanaethau Ar Draws y Cyngor	(4,659)		(18,576)	(23,235)
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)			(218)	(218)
<b>Cost net gwasanaethau</b>	<b>(1,592)</b>	<b>23,650</b>	<b>(24,975)</b>	<b>(2,917)</b>
Incwm a gwariant arall o'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	(18,766)	6,100	1,136	(11,530)
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC)			(449)	(449)
<b>Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg Cronfa'r Cyngor a Gwarged neu Ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>(20,358)</b>	<b>29,750</b>	<b>(24,288)</b>	<b>(14,896)</b>

### Nodyn 1 – Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf

Mae'r golofn addasiadau at ddibenion cyfalaf yn ychwanegu dibrisiant ac amhariad, enillion a cholledion ailbriso a Gwariant Refeniw a Ariennir o Adnoddau Cyfalaf o dan Statud (REFCUS) yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gan drosglwyddo incwm ar waredu asedau a dileu'r symiau ar gyfer yr asedau hynny.
- Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – mae'r codiannau statudol ar gyfer cyllido cyfalaf (h.y. y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) a chyfraniadau refeniw eraill yn cael eu didynnu o incwm a gwariant arall gan na ellir codi am y rhain o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.
- Trethiant ac incwm a gwariant grantiau amhenodol - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu y bodlonwyd yr amodau ar eu cyfer trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Trethiant ac Incwm a Gwariant Grantiau Amhenodol yn cael ei chredydu â grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu y bodlonwyd yr amodau ar eu cyfer trwy gydol y flwyddyn.

### Nodyn 2 - Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau

Y newid net ar gyfer tynnu cyfraniadau pensiwn allan ac ychwanegu gwariant ac incwm sy'n gysylltiedig â phensiwn dan IAS19 Buddion Cyflogeion:

- Ar gyfer gwasanaethau mae hyn yn cynrychioli tynnu allan gyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel a ganiateir gan statud a'u disodli â chostau cyfredol gwasanaethau a chostau gwasanaethau yn y gorffennol
- Ar gyfer Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi – mae'r llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### Nodyn 3 - Gwahaniaethau Eraill

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau wedi eu debydu / eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau sy'n daladwy / yn dderbyniadwy sydd i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant cyllido a buddsoddi mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i Gronfa'r Cyngor ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a disgowntiau.
- Mae'r codiant o dan y llinell Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir codi amdano o dan reoliadau statudol ar gyfer treth gyngor ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y rhagamcanwyd y byddent yn cael eu derbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

### 6. Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl Eu Natur

Mae'r tabl hwn yn nodi sut y mae'r cyllid i'r Cyngor wedi cael ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys trafodion mewn arian parod a thrafodion nad ydynt mewn arian parod gan gynnwys addasiadau cyfrifyddu yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. **Cyflwynir dadansoddiad cylchrannol o ffioedd, taliadau ac incwm arall a gafwyd gan wasanaethau ar wyneb y Dadansoddiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.**

<b>Ffigyrau 2020-21 Wedi'u Hailddatgan £'000</b>		<b>2021-22 £'000</b>
	<b>Gwariant</b>	
202,369	Treuliau cyflogeion	227,131
206,277	Treuliau eraill gwasanaethau	224,812
19,303	Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad	6,491
12,253	Taliadau llog	11,835
25,185	Praeseptau ac ardollau	26,264
274	(Enillion)/Colledion ar waredu asedau	573
<b>465,661</b>	<b>Cyfanswm gwariant</b>	<b>497,106</b>
	<b>Incwm</b>	
(31,282)	Ffioedd, taliadau ac incwm arall a gafwyd gan wasanaethau	(36,142)
(147,225)	Incwm o'r dreth gyngor, ardrethi annomestig	(155,353)
(295,116)	Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth	(319,494)
(910)	Incwm Buddsoddi a Llog Derbyniadwy arall	(856)
(542)	Incwm arall	(495)
<b>(475,075)</b>	<b>Cyfanswm incwm</b>	<b>(512,340)</b>
<b>(9,414)</b>	<b>(Gwarged) neu Ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau</b>	<b>(15,234)</b>



## Nodiadau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

### 7. Praeseptau ac Ardollau

Praeseptau yw'r symiau sy'n cael eu talu i awdurdodau nad ydynt yn bilio (e.e. cynghorau cymuned) gan awdurdodau sy'n bilio fel y gallant dalu eu treuliau. Ardollau yw'r symiau sy'n daladwy pan fydd gwasanaethau'n cael eu gweithredu dros ardaloedd sy'n cwmpasu mwy nag un Cyngor, naill ai ar sail cydwasanaeth, lle mae un Cyngor yn gweinyddu'r gwasanaeth a Chynghorau eraill yn cyfrannu at y costau, neu gan gyrrff allanol sy'n codi ardoll ar y Cynghorau priodol. Dyma'r symiau a dalwyd:

2020-21 £'000		2021-22 £'000
14,861	<b>Praeseptau</b>	15,632
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

## Sail y farn

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor [a'i grŵp] yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn nes ymlaen yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth

gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon ar dudalen 14, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i



gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camdatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cofnodi dyddyfau anarferol a gwyrdueddau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu.
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan y Cyngor yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol am ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd posibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adrian Crompton**  
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ

24 Ionawr 2023

*Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu/Swyddog Cleientiaid yw cynnal ac uniondeb gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.*

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol



## Cynnwys

- 1 Rhagair
- 2 Fframwaith Llywodraethu
- 3 Asesu Perfformiad
- 4 Sicrwydd Archwilio
- 5 Gwella Llywodraethu
- 6 Datganiad Sicrwydd

## 1 Rhagair

### “Un Cyngor yn cydweithio i wella bywydau”

**Dyma weledigaeth y Cyngor a nodir yn y [Cynllun Corfforaethol](#) ar gyfer 2018-2023 a adolygwyd ar gyfer 2022-23, sydd hefyd yn nodi beth yw ein Hamcanion Llesiant fel ein bod, ymhlith yr holl gymhlethdod o ran mwy o alw a llai o adnoddau'n gallu cadw ffocws clir ar yr hyn sydd wir yn bwysig i'n cymunedau.**

Mae arnom eisiau cyfrannu at le y mae pobl wrth eu bodd yn byw, yn gweithio, yn astudio ac yn cynnal busnes ynddo, lle mae gan bobl y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i wella'u cyfleoedd bywyd, mwynhau iechyd da ac ymdeimlad o les ac annibyniaeth.

Mae angen sicrhau bod gan ein cymunedau a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac yn talu amdanynt, y rhai sy'n darparu ein gwasanaethau a'n partneriaid a chyflenwyr hyder yn ein trefniadau llywodraethu. Rhaid iddynt fod wedi'u sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn effeithlon ac yn cael eu darparu'n gyson, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif yn briodol amdano; a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd tryloyw a chyfreithlon. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried yr heriau parhaus dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig effaith ddigynsail pandemig y Coronafeirws, goblygiadau parhaus yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd a'r canlyniadau sy'n deillio o'r gwrthdaro ar hyn o bryd yn Wcráin. Roedd mesurau ychwanegol ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal trefniadau llywodraethu priodol trwy'r digwyddiadau digynsail hyn, ac maent yn parhau i gael eu monitro a'u cryfhau wrth i ni symud ymlaen.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd i bennu amcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i wneud trefniadau a pharhau i adolygu i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac i sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r gofynion perfformiad hyn.

Mae ein trefniadau llywodraethu'n gweithredu'n effeithiol i gynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â'i heriau a'i gyfrifoldebau, ac maent wedi parhau i wneud hynny yn y cyfnod ansicr ar hyn o bryd. Mae gwelliannau'n cael eu gwneud yn barhaus ac mae cyfleoedd i wneud hynny wrth edrych tua'r dyfodol wedi cael eu hadnabod. Bydd y rhain yn cael eu monitro yn ystod 2022-23 i sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.



Y Cyng. Huw David  
Arweinydd y Cyngor



Mark Shephard  
Prif Weithredwr



## 2 Fframwaith Llywodraethu

### Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Mae llywodraethu corfforaethol yn cwmpasu'r systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd y caiff y Cyngor ei gyfarwyddo a'i reoli, ei arwain a'i ddwyn i gyfrif yn unol â hwy, a sut y mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae a wnelo hefyd â'r ffordd y mae Cyngorwyr a chyflogeion yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r modd y cyflawnir ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithio.

### Yr hyn y mae'r Datganiad hwn yn ei ddweud wrthyhch

Mae'r Datganiad hwn yn disgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol a gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Mae hefyd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i faterion llywodraethu a adnabuwyd yn ystod 2021-22 a chamau gweithredu sydd i'w cymryd yn ystod 2022-23 yn dilyn adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r Datganiad wedi cael ei baratoi yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2016: ['Delivering Good Governance in Local Government Framework'](#) a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE).



*Glannau Porthcawl*



## Cyfrifoldebau Llywodraethu'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rhaid i'r Cyngor ystyried effaith dymor hwy unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud, a dylai gydwethio gyda chyrrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.<sup>1</sup>

Fel corff cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor sicrhau mai llwyddo i gael canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd sy'n gynaliadwy yw ffocws allweddol ei brosesau a'i strwythurau llywodraethu. Cyflawnir hyn trwy:

- ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith
- sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi ei ymrwymiad i sicrhau bod system lywodraethu gadarn yn ei lle a'i gyfrifoldeb am hynny. Mae'r [Cod](#) a'r [Fframwaith Llywodraethu](#) ar wefan y Cyngor neu gellir eu cael gan y Swyddog Adran 151.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi saith egwyddor llywodraethu da yn unol â 'Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith' gan CIPFA.

	<b>Cod Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (2017) Mae Egwyddorion Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y canlynol:</b>
A	Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith
B	Sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid
C	Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
D	Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn y ffordd orau bosibl
E	Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
F	Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref ar arian cyhoeddus
G	Gweithredu arfer da mewn tryloywder, adrodd, ac archwilio i gyflawni atebolrwydd effeithiol



<sup>1</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


## Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

**Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cwmpasu'r systemau, prosesau a gwerthoedd y caiff y Cyngor ei gyfarwyddo a'i reoli yn unol â hwy, a'r modd y mae'n atebol i'r gymuned leol, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r modd y cyflawnir ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.**

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i bwriadu i wneud defnydd priodol o arian cyhoeddus ac osgoi ei golli. Mae hefyd o gymorth i reoli'r risg o fethiant i gyflawni polisiau, cyrraedd nodau a chyflawni amcanion. Nid yw'n dileu'r risg i gyd; mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i bwriadu i adnabod a blaenoriaethu risgiau, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n dod yn ffaith a rheoli eu heffaith.

Er mwyn adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, darperir sicrwydd fel y bo'n briodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Safonau, y Cyngor, y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a chyfle iddynt herio hynny. Hefyd, mae'r Swyddog Adran 151 yn hyrwyddo ac yn cyflawni rheolaeth ariannol dda ac mae'r Swyddog Monitro'n hyrwyddo ac yn cyflawni sicrwydd cyfreithiol a moesegol.

Caiff rhai o'r elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu eu hamlygu isod.



Yn fwy eang, fel rhan o'i drefniadau partneriaeth a chydweithio, mae'r Cyngor yn rhan o drefniadau llywodraethu allanol pwrcasol a ysgogir gan y gwahanol drefniadau partneriaeth a chyflawni sy'n bodoli. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Cyngor yn un o ddeg Cyngor sydd, ar y cyd, yn cyflawni Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC), sydd â swyddogaeth Graffu a Chabinet ar y cyd i sicrhau trefniadau llywodraethu o ran ei rhoi ar waith. Nod BDdPRC yw gwella ffyniant economaidd, rhagolygon

swyddi a gwella cysylltedd digidol a thrafnidiaeth ac mae'n fuddsoddiad sylweddol yn economi De Cymru. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn ledled y rhanbarth i sicrhau bod y gymuned a byd busnes yn y Fwrdeistref yn gallu cael budd o'r buddsoddiad hwn

- Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn rhoi'r pwerau i Weinidogion sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig sy'n cwmpasu pedair swyddogaeth llesiant economaidd, trafndiaeth, cynllunio strategol a gwella ysgolion. Fe wnaeth Rheoliadau Cydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru gan Lywodraeth Cymru 2021 sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a darparu y byddai'r tair swyddogaeth graidd (llesiant economaidd, trafndiaeth a chynllunio strategol) yn cael eu rhoi i Gydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru ar 28 Chwefror 2022. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2022 fe osododd Llywodraeth Cymru reoliadau diwygio i newid y dyddiad pan fydd y tair swyddogaeth graidd yn cael eu rhoi i Gydbwyllgor Corfforedig De Ddwyrain Cymru o 28 Chwefror 2022 i 30 Mehefin 2022. Mae Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi rhoi camau ar waith i alluogi'r broses o bontio i Gydbwyllgor Corfforedig i ddigwydd erbyn y terfyn amser gofynnol.
- Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r gwasanaeth lechyd ac mae trefniadau rhanbarthol ar waith a reolir gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu arweinyddiaeth ledled y rhanbarth ar gyfer diogelu a chynllunio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn integredig er bod y Gwasanaeth Mabwysiadu'n dal i weithredu ar ôl troed blaenorol 'Bae'r Gorllewin'.
- Mae'r Cyngor yn un o'r cyfranogwyr mewn nifer o gydwasanaethau, gydag awdurdodau lleol eraill, megis y Cydwasanaethau Rheoleiddiol gyda Chynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg, a Chonsortium Canol De Cymru, cydwasanaeth addysg ar gyfer pum awdurdod lleol. Llywodraethir y rhain gan gydbwyllgorau sy'n cynnwys aelodau etholedig o bob un o'r awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor hefyd yn un o'r partneriaid mewn Cydwasanaethau Archwilio Mewnol Rhanbarthol gyda Chynghorau Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

## Gwneud Penderfyniadau a Chyfrifoldebau

**Yn dilyn Adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019, a'r Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, mae'r Cyngor bellach yn cynnwys 51 o Aelodau etholedig (3 aelod yn llai), gydag Arweinydd etholedig a Chabinet sy'n cael eu cefnogi a'u dwyn i gyfrif gan Bwyllgorau Craffu.** Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y mae'r



Cyngor yn gweithredu, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod y Cyngor yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'n cynnwys y rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes y Cyngor, ac yn nodi rhestr o swyddogaethau y gall swyddogion eu harfer a phenderfyniadau y gall swyddogion eu gwneud. Mae hefyd yn cynnwys y rheolau a'r protocolau y mae'r Cyngor, Aelodau a swyddogion yn gweithredu'n unol â hwy.

Trwy'r Cyfansoddiad, ynghyd â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, y Pwyllgor Safonau a rôl archwilio mewnol, mae'r Cyngor yn gweithredu ag **uniondeb**, yn unol â **gwerthoedd moesegol** ac o fewn ei bwerau **cyfreithiol**. Bydd Cyfansoddiad Enghreifftiol Cymru, a gomisiynwyd ar gais Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan i ystyried y gofynion deddfwriaethol newydd a osodwyd ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Mae'r model newydd, pan gaiff ei fabwysiadu, yn sicrhau dull mwy cyson ar draws awdurdodau lleol.

Gellir gweld agendâu, papurau, a chofnodion holl gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau ar-lein, a chyn y pandemig roedd pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd oni bai bod materion eithriedig neu gyfrinachol yn cael eu trafod. Ers y pandemig cynhelir cyfarfodydd yn rhithwir a chânt eu recordio a'u rhoi ar wefan y Cyngor i'r cyhoedd gael mynediad atynt. Mae blaenraglen waith y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am bob mater y mae'r Cyngor llawn neu'r Cabinet yn debygol o fod yn gwneud penderfyniad yn ei gylch yn ystod y cyfnod sydd i ddod. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â Phwyllgorau Craffu. I wella'r drefn o **fod yn agored** ac **ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn modd cynhwysfawr** mae gan y Cyngor Banel Dinasyddion, sy'n cymryd rhan mewn arolygon ar ystod o faterion. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau ac ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae'n trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ystod o fformatau i gynyddu i'r eithaf y cyfle ar gyfer rhannu gwybodaeth ac i drigolion gyfathrebu gyda'r Cyngor.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Mae'r Ddeddf yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad a gweithio rhanbarthol. Mae llawer o ddiwygiadau o fewn y Ddeddf; fodd bynnag, i grynhoi mae'r Ddeddf yn cyflwyno:

- Diwygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed;
- Cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol;
- Diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol;
- Diwygiadau ynghylch llywodraethu ac arweinyddiaeth ddemocrataidd;
- Gweithio ar y cyd;
- Diwygio'r drefn perfformiad a llywodraethu;
- Pwerau i hwyluso'r uniad gwirfoddol o brif gynghorau.

Er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ynghylch pa newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu gweithredu a phryd, ac i sicrhau y gellir gwneud y paratodau gofynnol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud tri Gorchymyn Cychwyn, a fydd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth berthnasol arall, a fydd yn dod â'r darpariaethau perthnasol i rym ar gyfres o ddyddiadau rhwng mis Mawrth 2021 a 5 Mai 2022.

Mae'r Ddeddf yn cael, a bydd yn parhau i gael, effaith eang ar drefniadaeth, pwerau, prosesau mesur perfformiad a threfniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys newidiadau i gyfansoddiad a chylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae cyfrifoldebau newydd, y mae'r Pwyllgor eisoes wedi dechrau ysgwyddo rhai ohonynt, yn cynnwys:

- rôl wrth adolygu adroddiadau hunanasesu'r Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer newid;
- ystyried y canlyniad a'r ymateb i asesiadau perfformiad panel o'r Cyngor, a;
- chyfrifoldeb am wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

Hefyd, o fis Mai 2022 mae cyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi newid, ac mae gofyniad i draean o'i aelodau fod yn aelodau lleyg, ac i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod lleyg. I Ben-y-bont ar Ogwr mae hyn yn golygu y bydd y Pwyllgor yn cynnwys 8 aelod etholedig a 4 aelod lleyg.



## Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor. Mae'n Bwyllgor statudol a oedd yn cynnwys 11 o Gynghorwyr ac 1 Aelod Lleyg trwy gydol 2021-22. Yn dilyn rhoi'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ar waith, o 2022-23 mae'n cynnwys 8 Cynghorydd a 4 Aelod Lleyg. Ei brif swyddogaethau yw:

- Adolygu a chraffu ar adroddiadau ac argymhellion sy'n ymwneud â Materion Ariannol y Cyngor
- Adolygu a chraffu ar adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, a llywodraethu corfforaethol y Cyngor
- Goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod craffu effeithiol ar Strategaeth a Pholisïau Rheoli'r Trysorlys
- Monitro Strategaeth Atal Twyll a Llwgwrwbrwyo'r Cyngor, y Polisi Atal Gwyngalchu Arian, a'r Polisi Atal Osgoi Trethi
- Adolygu a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynnyddol y Cyngor a'r Datganiad Cyfrifon Blynnyddol
- Adolygu ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Allanol a'r Arolygwyr
- Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ymdrin yn effeithiol â chwynion a gwneud argymhellion yn hyn o beth
- Adolygu adroddiad hunanasesu drafft y Cyngor ar ei berfformiad ac, os tybir bod hynny'n angenrheidiol, gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau



### 3 Asesu Perfformiad

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae dyletswydd ar y Cyngor i adrodd ar ei berfformiad trwy adroddiad hunanasesu blynyddol. Mae hwn yn asesiad ehangach na'r [Adroddiad Blynyddol](#) blaenorol, a oedd yn hunanwerthusiad blynyddol o gynnydd yn erbyn Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn bwrw golwg yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyda'r camau i gyflawni'r amcanion llesiant. Roedd yr adroddiad yn ystyried mesurau o lwyddiant gyda thargedau'n cael eu gosod yn flynyddol ac yn cael eu defnyddio i ysgogi gwelliant. Mae'r adroddiad hunanasesu'n ehangach o lawer a rhaid iddo nodi casgliadau'r Cyngor ar ôl ystyried i ba raddau y gwnaeth ateb y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi eu cymryd, i ateb y gofynion perfformiad i raddau mwy helaeth. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys gofyniad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu'r adroddiad drafft, ac i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno o leiaf i Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Gweinidogion Cymru.

Yn ystod 2021-22 roedd y Cyngor yn dal i reoli effaith pandemig Covid-19, ac yn ceisio symud i mewn i'r cyfnod adfer ac adnewyddu. Roedd y trefniadau a phrosesau llywodraethu yr oedd y Cyngor wedi'u rhoi ar waith yn ystod cyfnodau cynharach y pandemig yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u diwygio i sicrhau y gallai barhau i gefnogi trigolion a busnesau yn ystod y cyfnod anodd a heriol hwn.

### Y Cynllun Corfforaethol

Mae Cynllun Corfforaethol 2018-23, a ddiweddarwyd ar gyfer 2022-23, ac y cytunwyd arno ym mis Chwefror 2022, yn nodi gweledigaeth y Cyngor: **'Un Cyngor yn cydweithio i wella bywydau'**. Mae'r Cynllun yn diffinio tair blaenoriaeth y Cyngor, ei amcanion llesiant â'i werthoedd ac egwyddorion sefydliadol sy'n gosod sylfaen i'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau. Diben y Cyngor, yn ôl ei ddiffiniad ei hun, yw cyfrannu at ardal lle mae pobl wrth eu bodd yn byw ynddi, yn gweithio ynddi, yn astudio a gwneud busnes ynddi, lle mae gan bobl y sgiliau a'r cymwysterau y maent eu hangen i wella eu cyfleoedd mewn bywyd, a lle maent yn mwynhau iechyd da ac ymdeimlad o lesiant ac annibyniaeth'.



Yn tanategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i broses benderfynu i gyd, cymhwysir egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r tabl yn dangos sut y mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y saith nod llesiant.



Nod Llesiant	Amcan Llesiant		
	Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus	Helpu cymunedau a phobl i fod yn iachach ac yn fwy gwydn	Defnyddio adnoddau'n ddoethach
Cymru lewyrchus	✓		✓
Cymru gydnerth			✓
Cymru iachach	✓	✓	✓
Cymru sy'n fwy cyfartal	✓	✓	✓
Cymru o gymunedau cydlynus	✓	✓	✓
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	✓	✓	
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	✓		✓

Yn ogystal â'r saith nod llesiant, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn diffinio'r pum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio yw:

























**Hirdymor:** meddwl am genedlaethau'r dyfodol ac am ein hadnoddau naturiol.

**Atal:** hwn yw'r cam cyn bod unrhyw faterion yn codi ac mae wedi'i fwriadu i wneud yn siŵr bod datrysiadau ac ymyriadau'n cael eu targedu a'u bod ar gael i atal yr angen am wasanaethau statudol.

**Integreiddio a chydweithio:** gyda chydweithwyr a phartneriaid. Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cydgysylltu ar draws gwasanaethau a chydweithio'n agosach gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

**Cynnwys:** ymgynghori â phobl leol a'u cynnwys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

5 Ffordd o Weithio	Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Ein Hegwyddorion					

5 Ffordd o Weithio	Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Cefnogi cymunedau a phobl i ddatrys pethau eu hunain ac i leihau eu dibyniaeth ar y Cyngor.					
Canolbwyntio adnoddau sy'n prinhau ar y cymunedau a'r unigolion sydd â'r angen mwyaf.					
Defnyddio gwybodaeth dda a geir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i lywio ei benderfyniadau.					
Annog a datblygu gallu'r trydydd sector i nodi ac ymateb i anghenion lleol.					
Peidio â chaniatáu i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrllon a phragmatig â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus.					
Gweithio fel un Cyngor ac yn annog gwahanol rannau o'r sefydliad i osgoi datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy'n wahanol heb fod angen.					
Trawsnewid y sefydliad a llawer o'i wasanaethau i sicrhau gostyngiadau ariannol yn y gyllideb yn ogystal â gwelliannau.					

**Y Gymraeg** – Mae gan Gymru ddwy iaith swyddogol, Cymraeg a Saesneg, a dylai gwasanaethau a gwybodaeth fod ar gael yn gyfartal yn y ddwy. Saesneg yw iaith fusnes fewnol y Cyngor, ond bydd yr holl wasanaethau a gwybodaeth a ddarperir gennym ar gyfer pobl leol ar gael yn gyfartal yn y naill iaith a'r llall.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi nifer o egwyddorion sy'n tanategu ei Amcanion Llesiant ac mae wedi mabwysiadu set o werthoedd sy'n cynrychioli'r hyn y mae'r Cyngor yn sefyll drosto ac yn dylanwadu ar ei ffordd o weithio. Nodir yr egwyddorion allweddol isod.

- Lle bynnag y bo modd bydd y Cyngor yn cefnogi cymunedau a phobl i ddatrys pethau eu hunain ac i leihau eu dibyniaeth ar y Cyngor
- Bydd y Cyngor yn canolbwyntio adnoddau sy'n prinhau ar y cymunedau a'r unigolion sydd â'r angen mwyaf
- Bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth dda a geir gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i lywio ei benderfyniadau
- Bydd y Cyngor yn annog ac yn datblygu gallu'r trydydd sector i nodi ac ymateb i anghenion lleol
- Ni fydd y Cyngor yn caniatáu i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrllon a phragmatig â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus
- Bydd y Cyngor yn gweithio fel un Cyngor ac yn annog gwahanol rannau o'r sefydliad i osgoi datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy'n wahanol heb fod angen
- Bydd y Cyngor yn trawsnewid y sefydliad a llawer o'i wasanaethau ac wrth wneud hynny bydd yn sicrhau gostyngiadau ariannol yn y gyllideb yn ogystal â gwelliannau

Gwerthoedd y Cyngor, neu mewn geiriau eraill **GWEDD** y Cyngor yw:

- **G**ofalu am unigolion mewn modd teg – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb
- **W**astad yn uchelgeisiol – yn ceisio gwella'r hyn yr ydym yn ei wneud ac yn anelu at ragoriaeth
- **E**r lles ein dinasyddion – eu gwneud yn ganolog a chofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol
- **D**dydd ar ôl dydd, mynd ar drywydd effeithlonrwydd – trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi gwerth am arian

## Covid-19

Rhoddyd y DU dan gyfyngiadau symud am y tro cyntaf ar 23 Mawrth 2020 mewn cam na welwyd ei debyg o'r blaen i geisio cyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws. Yn ystod haf 2020 cafodd rhai o'r rheolau eu llacio ond cafodd cyfnodau clo dilynol eu rhoi ar waith dros weddill y flwyddyn honno er mwyn ymdrin ag ymchwyddiadau sylweddol mewn achosion o straenau newydd o'r feirws, er mwyn gwarchod bywydau a chefnogi'r GIG. Datblygodd GIG Cymru gynlluniau a strategaethau manwl iawn wrth baratoi ar gyfer y rhaglen frechu Covid-19 ac o fis Rhagfyr 2020 lansiodd y brechlyn Pfizer BioNTech, ychydig cyn i frechlyn AstraZeneca Rhydychen gael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2021. Ers hynny mae cyfanswm o bron i 7 miliwn o ddosau o frechiadau cyntaf, ail frechiadau a brechiadau atgyfnerthu wedi'u darparu i oedolion a phobl ifanc.

Mae'r Cyngor wedi parhau i addasu i ffyrdd newydd o weithio trwy gydol y cyfnod hwn, a dysgu o, ac adeiladu ar, rai o'r arferion newydd a gafodd eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar brosesau llywodraethu a phenderfynu ac maent yn parhau i gael eu hadolygu wrth i ni ddechrau ar y cyfnod adfer ac adnewyddu. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Medi 2021 ar Fodel Darparu Gwasanaethau'r Dyfodol ar gyfer y Cyngor a oedd yn amlinellu'r heriau yr oedd y pandemig wedi eu rhoi i'r Cyngor, a chynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys yr egwyddorion strategol arweiniol, manteision a heriau posibl, a ffactorau eraill sy'n dylanwadu. Un egwyddor allweddol oedd y byddai model y Cyngor yn cyd-fynd â nod Llywodraeth Cymru bod 30% o'n gweithlu'n ystywyth ac yn gweithio gartref, ar unrhyw adeg benodol, erbyn 2024. Bydd bwrdd prosiect trawsbynciol yn symud y model yn ei flaen.

Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi cael eu codi yng Nghymru ers 18 Ebrill 2022; fodd bynnag, rhaid i fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill barhau i gynnal asesiad risg penodol mewn perthynas â'r coronafeirws a chymryd mesurau rhesymol i leihau cysylltiad â'r coronafeirws, a'i ledaeniad. O ganlyniad, ac yn unol â'r egwyddorion strategol mabwysiedig, mae nifer o staff y Cyngor yn parhau i weithio gartref. Mae'r Cyngor yn gweithio ar gam interim Model Darparu Gwasanaethau'r Dyfodol ar hyn o bryd ac, ers diwedd 2021, mae wedi galluogi meysydd gwasanaeth i ddychwelyd i'r swyddfa, yn amodol ar achos busnes cymeradwy, sy'n nodi manteision y cynnig ynghyd ag asesiad risg o ystyriaethau iechyd a diogelwch y dychweliad hwnnw. Hefyd, lle mae staff yn profi problemau llesiant, maent yn gallu archebu desg ymlaen llaw am gyfnod, ac mae'r gwaith wedi'i gwblhau'n ddiweddar ar ddatblygu Ap Archebu digidol ar gyfer y broses hon i ddisodli'r broses flaenorol a oedd yn cael ei chynnal â llaw. Ym mis Mawrth 2022 ail-agorodd y Swyddfeydd Dinesig am y tro cyntaf mewn 2 flynedd, er mwyn galluogi aelodau o'r cyhoedd i fod yn bresennol yn y cnawd i ymdrin â'u hymholiadau penodol. Fodd bynnag, canolbwyntir ar ddefnyddio'r mecanwaith hwn i gyfeirio cwsmeriaid at wasanaethau ar-lein a'u cefnogi drwy hyn, er mwyn diogelu'r gwaith da a'r cyfleoedd a gododd tra'r oedd y Swyddfeydd Dinesig ar gau.

Mae gan staff swyddfa adnoddau i weithio gartref naill ai gyda gliniaduron a chyfleusterau ffôn wedi'u gosod ar y gliniaduron, neu ar gyfrifiaduron cartref sy'n gysylltiedig â rhwydwaith corfforaethol y Cyngor. Cynyddodd y Cyngor allu ei seilwaith yn sylweddol i alluogi pawb a allai weithio gartref i wneud hynny. Roedd hyn yn cynnwys darparu llwyfannau hygyrchedd lluosog i alluogi mynediad. Mae capasiti ôl-storio wedi cael ei gynyddu ac mae diogelwch y rhwydwaith yn parhau ar lefel uchel. Mae'r Uned

Gwasanaeth TGCh yn cael eu harchwilio a'i hachredu'n flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r Cod Cysylltiadau Rhwydwaith ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN CoCo). Yn ystod pandemig y Coronafeirws ac yn fwy diweddar yn ystod y gwrthdaro yn Wcráin cynghorodd y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol fod holl sefydliadau'r llywodraeth ar rybudd uchel rhag bygythiad ymosodiadau seiber. Mae gwasanaeth TGCh y Cyngor yn symud ymlaen tuag at ardystiad Cyber Essentials Plus i gyd-fynd â'r PSN CoCo presennol.

Ar ddechrau'r pandemig cafodd nifer o wasanaethau, gan gynnwys ysgolion, eu cau, er i'r Cyngor barhau i gynnal nifer sylweddol o wasanaethau hanfodol, yn enwedig darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant agored i niwed a gwasanaethau casglu gwastraff. Roedd y gwasanaethau a oedd ar gau yn cynnwys lleoliadau diwylliannol, canolfannau hamdden, canolfannau ailgylchu cymunedol a gwasanaethau dydd. Yn ystod y flwyddyn, wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo ddechrau llacio, fe ailgorodd nifer o'r rhain, ond gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith, neu gan eu darparu'n wahanol. Fe wnaeth ysgolion addasu i ddarparu dysgu cyfunol ac yn ystod y cyfnod clo llawn, dysgu ar-lein, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu haddysgu trwy eu cyfrifiaduron cartref ac fe sicrhawyd cyllid i alluogi disgyblion a oedd wedi'u heithrio'n ddigidol i barhau i ddysgu gartref.

Yn ystod 2021-22 cafodd holl gyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor eu cynnal yn rhithwir trwy Microsoft Teams a'u recordio a'u lanlwytho i wefan y Cyngor yn dilyn y cyfarfod. Mae hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau llawn a thryloyw ac yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer galluogi Aelodau i bleidleisio ar benderfyniadau allweddol. Wrth edrych tua'r dyfodol, trefnwyd fod gwaith yn cael ei wneud ar Siambr y Cyngor ac mewn nifer o ystafelloedd Pwyllgor i alluogi cyfarfodydd hybrid i ddigwydd. Ym mis Ionawr 2021, wrth i'r cyfnod clo diweddaraf ddechrau, cyflwynodd y BRhC gyfarfod Aur penodol gan y BRhC i drafod materion sy'n gysylltiedig â Covid, y tu allan i'w hagenda rheolaidd ar gyfer y BRhC. Ategwyd hyn gan Grŵp Arian Covid, a oedd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, rhai rheolwyr grŵp a swyddogion allweddol eraill, i ystyried mwy o oblygiadau gweithredol y pandemig. Mae'r Grŵp Arian Covid yn uwchgyfeirio unrhyw benderfyniadau sy'n ofynnol ac unrhyw argymhellion a wneir at y BRhC. Wrth i'r argyfwng leihau mae'r ddau grŵp wedi parhau i gwrdd ond maen nhw wedi ehangu eu cwrpas i gynnwys materion strategol eraill nad ydynt yn gysylltiedig â Covid sy'n elwa o safbwynt traws-gyfarwyddiaethol.

Rhan o'r ymateb cenedlaethol i effaith y pandemig fu rhoi cymorth ariannol ychwanegol i'r economi ac unigolion, gan gynnwys dosbarthu grantiau busnes, rhyddhad ardrethi busnes, taliadau tanwydd gaeaf a thaliadau hunanynysu, y maent i gyd wedi cael eu gweinyddu gan y Cyngor. Mae hyn yn ychwanegol at nifer o daliadau i'r gweithlu gofal cymdeithasol, gyda'r bwriad o gydnabod a gwobrwyo gwaith caled ac ymrwymiad staff gofal cymdeithasol yn ariannol, yn rhai sy'n gweithio i'r Cyngor ac yn rhai mewn lleoliadau annibynnol a phreifat, a roddodd ofal hanfodol i'r dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod pandemig Covid-19. Mae hyn wedi golygu bod angen i staff ganolbwyntio ar weinyddu, rheoli a thalu nifer fawr o grantiau mewn amserlenni byr. Yn ystod y flwyddyn ariannol bu nifer o grantiau a chynlluniau gwahanol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, ond a reolwyd ac a weinyddwyd gan y Cyngor, gan gynnwys:

Grant	Swm a dalwyd allan
Grantiau Covid ar gyfer Ardrethi Annomestig Cenedlaethol Ionawr 2022	£1,992,000
Cronfa Galedi (gan gynnwys colli incwm)	£12,872,024
Taliadau hunanynysu	£1,736,750
Taliadau i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	£3,602,883
Ychwanegiadau at Dâl Salwch Statudol	£182,830
Taliadau Tanwydd Gaeaf	£1,729,400
Cronfa Cadernid Economaidd	£451,500
<b>CYFANSWM</b>	<b>£22,567,387</b>

Roedd gan bob un o'r grantiau hyn feini prawf gwahanol, prosesau dyfarnu gwahanol (eu talu'n awtomatig neu broses ymgeisio) a symiau ariannu gwahanol. Mae hyn wedi galw am ymdrech gydlynus rhwng yr adran drethiant, y tîm adfywio, yr adran TGCh, tîm y gyflogres, y gwasanaeth Cyllid a'r adran gwasanaethau cymdeithasol, yn aml o fewn amserlenni byr iawn, gan sicrhau ar yr un pryd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol a bod mecanweithiau rheoli ar waith i ddiogelu'r cyllid.

Maent i gyd wedi golygu bod angen rhoi prosesau newydd ar waith i'w gweinyddu, gan gynnwys ystyried newidiadau digidol i'w gwneud yn bosibl cyflwyno ceisiadau ar-lein, newidiadau i systemau, prosesau rheoli arian parod a phrosesau cyfrifyddu. Rydym wedi defnyddio gwybodaeth a gafwyd o gylchoedd grant blaenorol i wella ac awtomeiddio ein prosesau ar gyfer y grantiau mwy diweddar, gan wella effeithlonrwydd, lleihau oedi ac osgoi twyll a dyblygu. Mae'r taliadau tanwydd gaeaf newydd yn hynod awtomataidd ac mae angen llawer llai o fewnbwn staff na'r grantiau cychwynol y bu'n rhaid i'r Cyngor eu gweinyddu.

Mae gwasanaethau eraill wedi gorfod meddwl yn wahanol am sut allent barhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod clo. Mae'r rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth wedi gorfod addasu ac mae llawer o gyflogeion wedi gallu gweithio mewn ffordd wahanol a mwy ystwyth. Mae yna her sylweddol i'r sefydliad wrth symud ymlaen i sicrhau bod llawer o'r ffyrdd newydd o weithio sydd wedi gweithio'n dda yn parhau i wneud hynny. Mae gwasanaethau eraill wedi gorfod ailystyried sut i barhau i ddarparu ar gyfer y cyhoedd dros amser. Un enghraifft yw darparu prydau ysgol am ddim, a ddarparwyd i ddechrau trwy drefniant mewn arddull 'pecynnau cinio', yr oedd disgyblion yn eu casglu o leoliadau penodol. Fe newidiodd hyn wedyn i wasanaeth danfon parseli bwyd i gartrefi disgyblion, ac yna ym mis Hydref 2021, o ganlyniad i adborth gan rieni, rhoddwyd trefniadau newydd ar waith ac roedd talebau i dalu am fwyd yn cael eu rhoi i rieni a gofawyr plant a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yn ogystal â'r grantiau busnes, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddarparu nifer o grantiau penodol i dalu costau ychwanegol Awdurdodau Lleol o ganlyniad i'r pandemig, sef grantiau ar gyfer costau'n gyffredinol a grantiau wedi'u targedu at feysydd penodol, megis gofal cymdeithasol i oedolion, prydau ysgol am ddim, digartrefedd a chyfarpar diogelu personol. Caiff costau eu coladu ar draws y Cyngor er mwyn ei gwneud yn bosibl tynnu'r grantiau hyn i lawr, gyda'r mwyafrif yn cael eu hawlio yn erbyn Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Ceir effaith incwm a gollwyd o ffioedd a thaliadau hefyd, sy'n creu pwysau ychwanegol. Roedd y symiau a hawliwyd gan y Cyngor ac a gymeradwywyd fel a ganlyn:

<b>Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru</b>	<b>Wedi'u Hawlio £000</b>	<b>Wedi'u Cymeradwyo £000</b>	<b>Caniatáu £000</b>
Gwariant ychwanegol	14,748	14,682	66
Colli incwm	1,762	1,762	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>£16,510</b>	<b>£16,444</b>	<b>£66</b>

Mae pwysau costau ac incwm a gollwyd na chawsant eu hariannu gan Lywodraeth Cymru wedi creu pwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor, felly sefydlodd y Cyngor gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi benodol ar ddiwedd 2019-20 i'w alluogi i liniaru unrhyw gostau a oedd yn gysylltiedig â Covid nad oeddent yn cael eu hariannu yn 2020-21 a'r tu hwnt. Hefyd, gan gydnabod bod Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2022, cymeradwywyd pwysau cyllidebol o £1 miliwn gan y Cyngor ar gyfer 2022-23 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022-23 i 2025-26 i gwrdd â phwysau parhaus ar y gyllideb, o ran pwysau costau ychwanegol a cholledion incwm parhaus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb i bandemig Covid-19 trwy barhau i wneud taliadau cyn y cyflenwad lle y bo'n briodol, gan gynnal lefelau ffioedd rheoli ar gyfer rhai o'n darparwyr allweddol yn ystod y pandemig, a phan fo angen cynyddu nifer y taliadau BACS a wneir bob wythnos i sicrhau bod cyllid yn cyrraedd cyfrifon cyflenwyr yn gyflymach. Cyflwynwyd dulliau talu



symlach hefyd, i leihau'r amser yr oedd yn ei gymryd i brosesu taliadau i mewn i system Gyllid y Cyngor a rhyddhau taliadau i'r derbynyddion.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi profi costau ychwanegol nid dim ond o ganlyniad i'r pandemig, ond hefyd costau cynyddol o ganlyniad i Brexit, cynnydd mewn chwyddiant na welwyd ers dros ddegawd, ac yn fwy diweddar effaith y rhyfel yn Wcráin. Mae'r effaith yn cael ei themlo mewn prisiau bwyd ac ynni, ymhlith prisiau eraill. Mae'r rhain wedi arwain at argyfwng Costau Byw fel y'i gelwir, ac ni fydd y sefyllfa ond yn gwaethygu unwaith y daw'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol i rym o fis Ebrill 2022. Nid yw'n glir beth fydd canlyniadau tymor hwy y rhain, na sut y byddant yn cael eu rheoli. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn anochel y bydd nifer fawr o fusnesau ac unigolion yn eu cael eu hunain mewn trafferthion ariannol ac y gallent fynd i'r wal neu fod angen cymorth ariannol ychwanegol, er gwaethaf y cynlluniau cymorth amrywiol sydd wedi'u rhoi ar waith dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae busnesau yng nghanol trefi'n debygol o barhau i'w chael yn anodd wrth i staff barhau i weithio gartref, naill ai'n barhaol neu'n rhan-amser, gan effeithio ar nifer yr ymwelwyr yn y prif ardaloedd manwerthu hyn.

## Arolygiadau

Ym mis Mawrth 2019 fe wnaeth Estyn arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn dilyn yr arolygiad fe wnaeth Estyn nodi pedwar argymhelliad i ddwyn gwelliant pellach o ran y modd y mae Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Yn dilyn yr arolygiad, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu ôl-arolygiad (PIAP) er mwyn sicrhau y byddai'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad Estyn yn cael sylw. Mae'r Cyngor (gyda chymorth Consortiwm Canol De Cymru, lle y bo'n briodol) wedi parhau i weithio i fynd i'r afael â holl argymhellion yr Arolygiad. Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith monitro rheolaidd i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y camau nesaf ar gyfer gwella'n cael eu nodi a'u deall gan yr holl swyddogion.

Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cynnal arolygiadau rheoleiddiol o ddarpariaeth gofal gofrestrdig y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ddarparwr sylweddol gwasanaethau gofal rheoleiddiedig i oedolion a phlant a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant yw Unigolion Cyfrifol y ddarpariaeth, gyda chyfrifoldebau cyfreithiol yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal (Cymru) (2018). Bu cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch swyddogion ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod 2020-21 i roi sicrwydd o ran diogelwch a llesiant pobl yn ystod pandemig Covid-19. Cynhaliwyd gwiriad sicrwydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Ebrill 2021, ac i ddilyn cynhaliwyd Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o'r Gwasanaethau Plant ym mis Mai 2022. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun strategol 3 blynedd i wella canlyniadau o ran gofal cymdeithasol i blant, ac mae'r gwelliannau yn y cynllun hwn, ac Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru, yn cael eu goruchwyllo gan fwrdd, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a'i gynghori gan arbenigwr annibynnol ym maes gofal cymdeithasol i blant.

## Gwella Blynnyddol

Mae Archwilio Cymru<sup>2</sup>, ein Harchwilydd Allanol, yn asesu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus a pherfformiad dilynol, ac mae canlyniadau'r rhain wedi'u cyhoeddi yn eu [Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2021](#). Ym mis Chwefror 2022 fe adroddon nhw fod yr 'Archwilydd Cyffredinol (wedi) ardystio bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau sy'n weddill dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y'u harbedwyd gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021'. Dywed y Crynodeb hefyd ei fod, ym mis Awst 2021, wedi dod i'r casgliad bod 'y Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gref yn ystod y pandemig ac wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig'.

<sup>2</sup> Ers 1 Ebrill 2020 mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u brandio fel Archwilio Cymru. Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r enwau statudol o hyd.



Mae Archwilio Cymru wedi cynnal nifer o adolygiadau a chyflwyno adroddiadau arnynt yn ystod y flwyddyn, y mae eu canlyniadau allweddol wedi'u nodi isod.

Adroddiad	Canlyniadau allweddol
<p><b>Yn Ôl Eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol, Ebrill 2021</b></p>	<p><b>Er nad oedd yn benodol i Ben-y-bont ar Ogwr, fe wnaeth yr adolygiad hwn fwrw golwg ar y modd y mae Cyngorau'n diffinio'u gwasanaethau ac yn ceisio diogelu gwasanaethau hanfodol wrth ymdrin â gostyngiadau mewn cyllid. Canolbwyntiodd Archwilio Cymru ar sut y mae Cyngorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn a chynhwysfawr yw'r rhain.</b>  <b>Y Ffeithiau Allweddol a gododd o'r adolygiad oedd:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gall diffinio p'un ai dewisol ynteu statudol yw gwasanaeth fod yn gymhleth ac nid yw'n adlewyrchu gwaith pwysig cyngorau</li> <li>2. Er gwaethaf darparu gwasanaethau hanfodol y mae pobl yn dibynnu arnynt, bu'n rhaid i gyngorau wneud dewisiadau anodd ynghylch beth i'w ddiogelu wrth ymateb i dros ddegawd o lymder</li> <li>3. Mae prosesau adolygu gwasanaethau yn gymorth i gyngorau wneud dewisiadau anodd ond nid ydynt bob amser yn defnyddio'r holl ddata allweddol - Mae dinasyddion yn fodlon cymryd rhan mewn cynorthwyo i lunio a rhedeg gwasanaethau, ond nid yw cyngorau'n eu cynnwys yn effeithiol nac yn gyson mewn penderfyniadau</li> <li>4. Nid yw cyngorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu eu holl wasanaethau yn wyneb galw cynyddol a chymhleth</li> <li>5. Mae COVID-19 yn cynnig cyfle i ailgioriannu ac ailosod swyddogaeth a gwerth llywodraeth leol - Mae COVID-19 wedi dangos pwysigrwydd cyngorau fel arweinwyr allweddol yn ein cymunedau, sy'n darparu gwasanaethau hanfodol a rhwyd ddiogelwch i bobl ledled Cymru. Hefyd, mae angen i gyngorau adeiladu ar eu hymateb i COVID-19 a manteisio ar y cyfle i drawsnewid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau ac yn rhyngweithio â chymunedau</li> </ol>
<p><b>Adolygiad o Drefniadau'r Cyngor i Ddod yn 'Cyngor Digidol' – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Medi 2021</b></p>	<p><b>Cynhaliwyd yr adolygiad i alluogi Archwilio Cymru i ddeall a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i gefnogi ei uchelgeisiau i ddod yn gyngor digidol. Roedd hyn yn cynnwys archwilio sut y mae'r Cyngor wedi dysgu o'i newid i fwy o weithio'n ddigidol o ganlyniad i'r pandemig. Eu canfyddiadau o'r adolygiad oedd:</b></p> <p>"Mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi trefniadau ar waith i gefnogi ei uchelgeisiau digidol ond mae angen iddo gryfhau ei gynlluniau ar gyfer eu cyflawni".</p> <p>Daethant i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae gan y Cyngor strategaeth ddigidol newydd y byddai o fudd iddi adlewyrchu effaith y pandemig a chyfeiriad polisi cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg;</li> <li>• fe sefydlodd y Cyngor Fwrdd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol, sydd wedi darparu ysgogiad newydd, ond mae cyfle i gryfhau rhai trefniadau llywodraethu; ac</li> <li>• nid yw'r Cyngor wedi pennu'r gofynion o ran adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r strategaeth eto ac mae cyfle i fynd ati ymhellach i sefydlu diwylliant corfforaethol ar gyfer newid.</li> </ul>

**Aseiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Awst 2021**

**Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn dilyn yr adroddiad cryno cenedlaethol ‘Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19’, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, ac roedd yn benllanw ar gam 2 gwaith Archwilio Cymru i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21, sydd wedi arwain at gynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o’r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.** Canfyddiadau allweddol yr adolygiad oedd:

- Mae’r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gref yn ystod y pandemig ac wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru
- Mae’r Cyngor wedi cryfhau ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i roi adlewyrchiad gwell o bwysau ar y gyllideb yn y tymor canolig a newidiadau a ragwelir yn y galw am wasanaethau
- Nid oes unrhyw risgiau yn ôl pob golwg i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor mewn perthynas â’i ddefnydd o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sy’n dal i fod ar lefel gymharol uchel
- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r Cyngor yn gyson wedi tanwario’i gyllideb flynyddol ac mae’n disgwyl tanwario eto yn 2020-21
- Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni’r mwyafrif o’i arbedion wedi’u cynllunio yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn gyffredin â chynghorau eraill, bydd adnabod a chyflawni arbedion yn y dyfodol yn fwy o her
- Mae gan y Cyngor gymhareb hylifedd gadarnhaol sy’n ei roi mewn sefyllfa dda i gyflawni rhwymedigaethau cyfredol.

**Ym mis Medi 2021 fe luniodd ac fe gyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol ar gynaliadwyedd ariannol, gan gofnodi’r themâu a’r heriau allweddol o’r adolygiadau o awdurdodau lleol unigol, a nodi pedwar cam a allai helpu i wella cynaliadwyedd ariannol cynghorau:**

<b>Strategaethau Ariannol</b>	Deall heriau tymor byr, canolig a hir a nodi’n glir beth yw’r blaenoriaethau ar y cyfan ar gyfer sefyllfa ariannol y cyngor
<b>Cronfeydd Wrth Gefn</b>	Cynllunio eich ymagwedd tuag at gronfeydd wrth gefn a’ch defnydd ohonynt i sicrhau bod hynny’n cefnogi cynaliadwyedd ariannol tymor hwy
<b>Perfformiad yn erbyn y gyllideb</b>	Gwybod beth y mae’n realistig i wasanaethau ei gyflawni ac yna deall a gweithredu ar feysydd lle ceir gorwariannau cyson
<b>Cyflawni Arbedion</b>	Deall yr hyn y mae’n realistig i wasanaethau ei gyflawni o ran arbedion neu ostyngiadau mewn costau a gweithredu ar feysydd nad ydynt yn gyson yn cyflawni arbedion wedi’u cynllunio

## Rheoli Risg

**Mae'r Cyngor yn wynebu ystod o risgiau fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o'r ystod eang o wasanaethau y mae'n eu darparu a gweithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. O ddydd i ddydd mae risg weithredol yn deillio o her sicrhau digon o gapasiti a gallu i gynghori ar, ac i gyflawni, amcanion polisi allweddol y Cyngor.**

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull cadarn o reoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Corfforaethol yn cyd-fynd â Chynlluniau Cyfarwyddiaethau a fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r Cyngor yn diffinio risg fel: 'Unrhyw ddatblygiad neu ddigwyddiad posibl a fyddai, petai'n dwyn ffrwyth, yn peryglu gallu'r Cyngor i:

- gyflawni ei amcanion llesiant
- darparu gwasanaethau fel a gynlluniwyd
- cyflawni ei ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.'

Edrychir ar risgiau o safbwynt Gwasanaethau a'r Cyngor cyfan sy'n sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu distyllu yn yr [Asesiad Risg Corfforaethol](#). Mae'r Asesiad Risg yn nodi sut y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn a'r camau lliniaru y bydd yn eu rhoi ar waith i'w lleihau. Caiff ei adolygu a'i herio'n rheolaidd gan uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid yw'n bosibl dileu pob risg o fethu â chyrraedd y targedau ym mhobol, nodau ac amcanion y Cyngor ac felly ni all roi sicrwydd pendant o effeithiolrwydd, ond yn hytrach sicrwydd rhesymol.

Yn ystod 2021-22, datblygwyd Canllawiau Rheoli Risg manwl i'w defnyddio gan bob adran ar draws y Cyngor. Mae'n galluogi staff i nodi risgiau, eu blaenoriaethu a chymryd camau i'w lliniaru, mewn modd cyson ac amserol. Cyflwynwyd hyfforddiant i dîm rheoli pob cyfarwyddiaeth ac fe gafodd y rolau a'r cyfrifoldebau ym mhob cam o'r broses eu hamlinellu. Diwygiwyd Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau i sicrhau bod prosesau a chymau gweithredu'n cyd-fynd â'r broses rheoli risgiau gorfforaethol.

## Rheolaeth Ariannol

**Mae rheolaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chynnal yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad. Mae gan y Cyngor Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Cynllun Ariannol penodol ar gyfer Ysgolion, ac mae'r cynllun dirprwyo hefyd yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol. Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sefydlu fframwaith clir ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor ac am sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i'w gweinyddu'n briodol.**

Mae gallu'r Cyngor i sicrhau arbedion a chadw ei wariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan wedi hen ennill ei blwyf. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol yn wyneb lefelau ariannu ansicr a phwysau o ran costau, ac effaith hirdymor Brexit, y pandemig a'r gwrthdaro presennol yn Wcráin. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen iddo greu tua £21 miliwn o arbedion dros y cyfnod rhwng 2022-23 a 2025-26. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi ystyried pwysau hysbys o ran costau a meysydd blaenoriaeth yn unol â'r Cynllun Corfforaethol ac fe ymgynghorwyd yn helaeth i sicrhau proses gadarn. I sicrhau mwy o ymwneud gan randdeiliaid â datblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' rhwng 20 Medi ac 14 Tachwedd 2021, ac roedd ei bwyslais ar yr hyn y teimlai'r cyhoedd ei fod wedi gweithio'n dda yn ystod y pandemig, a ble y mae angen i ni barhau i wneud newidiadau neu welliannau wrth i ni adfer o'r pandemig i sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol am

y pump i ddeng mlynedd nesaf. Oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol, cafodd yr ymgynghoriad ar y gyllideb ei lansio ymlaen llaw ar y cyfryngau cymdeithasol cyn dyddiad yr arolwg byw ac roedd yr ymgynghoriad ei hun yn canolbwyntio'n fwy ar ddulliau ymgysylltu ar-lein, ar y cyfryngau cymdeithasol a rhyngweithiol. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys arolygon, y cyfryngau cymdeithasol, sesiynau ymgysylltu ar-lein, Cwestiynau Cyffredin ar-lein yn ogystal â fideos, hysbysebion radio a datganiadau i'r cyfryngau. Er mwyn casglu barn pobl ifanc aeth y tîm ymgynghori i un o gyfarfodydd Cyngor Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr a bu'n hyrwyddo'r ymgynghoriad ymhlith dysgwyr, staff a rhieni yn ysgolion uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Pen-y-bont. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i'w gweld ar wefan y Cyngor [yma](#). Am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi lefelau ariannu dangosol i Gymru gyfan am y ddwy flynedd ariannol nesaf, ond dim arwyddion o gyllid tebygol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. O ystyried yr ansicrwydd hwn, mae'r Cyngor wedi datblygu cyllidebau manwl ar gyfer blwyddyn gyntaf y Strategaeth gyda chyllidebau dangosol wedi hynny yn seiliedig ar ystod o senarios ariannu.

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu'r Cyngor, systemau ariannol allweddol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Cafodd y Rheolau Gweithdrefn Ariannol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn adlewyrchu'r arferion gwaith cyfredol yn well, ac fe'u cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2021. Mae'r trefniadau sydd ar waith i ddangos rheolaeth ariannol dda yn cynnwys gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cynllunio cyllidebau ac adroddiadau monitro'r gyllideb a gyflwynir yn rheolaidd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu, yn ogystal â gwybodaeth fanwl i ddeiliaid cyllidebau. Mae'r Cyngor yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Cyngor yn dilyn Cod CIPFA ar Reoli Trysorlys a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol i sicrhau bod yr arian sy'n cael ei fuddsoddi yn ddiogel, yn hygyrch pan fo angen ac yn dwyn adenillion priodol ac mae unrhyw fenthyciadau y mae eu hangen yn cyd-fynd â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor. Yn ystod pandemig y Coronafeirws mae dibyniaeth ar gyngor Rheoli Trysorlys wedi bod yn hollbwysig, ac roedd lefelau sylweddol o symudiadau arian parod yn golygu bod angen mwy o ffocws ar reoli llifoedd arian parod mewn modd mor ddiogel â phosib. Ni welwyd yr un lefel o arian grant i fusnesau yn 2021-22 o ganlyniad i grantiau Covid Llywodraeth Cymru ag a welwyd ar ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020, ac ansicrwydd y farchnad o ganlyniad. Mae'r Cyngor wedi gallu buddsoddi arian ar draws ei opsiynau buddsoddi ehangach yn unol â [Strategaeth Rheoli Trysorlys](#) y Cyngor a'i alluogi i leihau ei ddibyniaeth ar y Swyddfa Rheoli Dyledion, er bod hyn yn parhau i fod yn opsiwn buddsoddi allweddol i'r Cyngor.

Cyhoeddodd CIPFA God Ymarfer Rheoli Trysorlys diwygiedig ym mis Rhagfyr 2021, a hwnnw'n cael ei roi ar waith yn llawn o 2023-24. Cyhoeddodd CIPFA hefyd rifyn newydd o'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu Strategaeth Gyfalaf, i'w chymeradwyo gan y Cyngor, sy'n dangos bod yr awdurdod yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant a buddsoddiadau cyfalaf yn unol â'i amcanion o ran gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodaeth, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Newid sylweddol yn y Cod yw bod yn rhaid i awdurdod, er mwyn cydymffurfio â'r Cod, beidio â benthycio i fuddsoddi ar gyfer adenillion ariannol yn bennaf. Nid yw'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddiadau masnachol presennol, gan gynnwys eiddo, gael eu gwerthu. Fodd bynnag, mae'n nodi y dylai awdurdodau y mae arnynt angen benthycio adolygu opsiynau ar gyfer gadael eu buddsoddiadau ariannol at ddibenion masnachol. Mae'r Cyngor yn annhebygol o fuddsoddi at ddibenion masnachol ond bydd yn canolbwyntio ar gyflawni cynlluniau sy'n bodloni ei amcanion o ran gwasanaethau. Mae dangosyddion newydd wedi cael eu cynnwys ar fforddiadwyedd, ac mae 'Meincnod Rhwymedigaeth' yn disodli'r dangosyddion darbodus ar ddyled gros a'r gofyniad cyllido cyfalaf. Mae [Strategaeth Gyfalaf 2022-23](#) wedi cael ei diwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn y Cod

Darbodus. Mae'r Strategaeth yn parhau i esblygu i ddarparu cynllun cyfalaf cadarn ar gyfer y Cyngor dros y tymor canolig a hir.

## Cydymffurfio â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol CIPFA

Lansiodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol ym mis Tachwedd 2019. Datblygwyd y Cod Rheolaeth Ariannol yng nghyd-destun pryderon cynyddol am gydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol.

Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol yn nodi'r egwyddorion a ddylai roi arweiniad i awdurdodau wrth reoli eu cyllid a'r safonau penodol y dylent, fel isafswm, geisio eu cyrraedd. Mae'n egluro sut y dylai Prif Swyddogion Cyllid gyflawni eu cyfrifoldeb statudol am weinyddiaeth ariannol dda fel sy'n ofynnol yn ôl adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n pwysleisio cyfrifoldeb ariannol cyfunol yr arweinyddiaeth gyfan gan gynnwys yr aelodau etholedig perthnasol.

Trwy gydymffurfio â'r egwyddorion a'r safonau o fewn y cod bydd awdurdodau'n gallu dangos eu cynaliadwyedd ariannol. Er bod y Cod wedi'i fwriadu i fod yn hyblyg i natur, anghenion ac amgylchiadau awdurdodau unigol, mater i bob awdurdod yw penderfynu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol a nodi pa gamau y gallai ddymuno eu cymryd i gyrraedd y safonau a nodir gan y Cod Rheolaeth Ariannol yn well. Roedd disgwyl cydymffurfiaeth lawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 (h.y. o fis Ebrill 2021). Yn ei Fwletin Cyfarwyddyd 06 (*Application of the Good Governance Framework 2020/21*) nododd CIPFA y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol gynnwys casgliad cyffredinol asesiad o'r modd y mae'r sefydliad yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Rheolaeth Ariannol. Hefyd, pan fo materion neu feysydd i'w gwella yn dal i fodoli, dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, fe gwblhaodd y Cyngor asesiad o gydymffurfiaeth gyfredol â'r 17 o Safonau a amlinellir yn y Cod Rheolaeth Ariannol. Nododd yr asesiad fod y Cyngor yn gallu dangos cydymffurfiaeth â'r holl Safonau, ond y gellid cymryd camau pellach i wella cydymffurfiaeth yn ystod 2022-23. Cafodd y camau hyn eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2021-22 a'r camau oedd adolygu'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol, y Cod Llywodraethu Corfforaethol a pharhau i gefnogi datblygiad proffesiynol. Mae cynnydd yn erbyn y rhain wedi'i gynnwys yn Adran 5 – Gwella Llywodraethu.

## 4 Sicrwydd Archwilio

### Archwilio a Sicrwydd Archwilio

**Caiff y Cyngor ei archwilio'n allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chymorth Archwilio Cymru. Amcanion hyn yw cael sicrwydd pa un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb gamdatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; a chyhoeddi barn ar hynny. Maent hefyd yn asesu ein trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.**

Yn 2021 rhoddodd yr Archwilydd Allanol farn archwilio ddiamed ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2020-21.

Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio nifer o hawliadau am grantiau ac yn y flwyddyn fe gwblhaodd 7 archwiliad o grantiau a ffurflenni. Rhoddwyd barn amodol am ddau hawliad, gan gynnwys Budd-dal Tai oherwydd ychydig o wallau a arweiniodd at newid o £10.27 i'r hawliad, a rhoddwyd barn amodol ar grant arall o ganlyniad i gynnydd mewn costau ar y cynllun ac awdurdodiad ar gyfer anfoneb nad oedd yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor. Mae'r adroddiad archwilio wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Hefyd mae Archwilio Cymru yn cynnal adolygiadau o amryw wasanaethau a hefyd adolygiadau o berfformiad trwy gydol y flwyddyn, y cyflwynir adroddiadau ar eu canlyniadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2021-22 yw:

### ***“Sicrwydd Rhesymol”***

Mae'r farn yn nodi, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan y Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn ariannol, nad oes unrhyw faterion rheoli trawsbynciol arwyddocaol wedi cael eu canfod a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar y cyfan. Mae'r gwendidau a nodwyd yn ymwneud â gwasanaethau penodol.

Fel a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol effeithiwyd yn ddifrifol ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi gorfod gweithredu yn ystod 2021-22 gan bandemig COVID 19. Mae nifer o aelodau o staff wedi bod yn gweithio o bell, a bu'n rhaid addasu systemau a phrosesau er mwyn darparu ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio. Yn yr un modd, mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi gweithio o bell, gan gynnal archwiliadau a chael tystiolaeth yn ddigidol. Mae pob archwiliad wedi ystyried effaith bosibl COVID 19 a gweithio o bell i sicrhau bod rheolaethau a threfniadau llywodraethu digonol yn parhau i fod ar waith.

Fe gafodd y pandemig beth effaith ar gyflawni'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2021-22 a chafodd nifer gyfyngedig o archwiliadau eu gohirio oherwydd y pwysau ar rai meysydd gwasanaeth. Bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn 2022-23. Roedd y gwaith archwilio a wnaed gan y tîm Archwilio Mewnol yn dal yn ddigonol i'r Pennaeth Archwilio allu rhoi barn.

Derbyniwyd yr argymhellion a wnaed i wella llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ac maent ar wahanol gamau o ran eu rhoi ar waith.



Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol roedd trefniadau interim yn dal i fod ar waith i gyflenwi swydd statudol Swyddog Adran 151/Pennaeth Cyllid y Cyngor. Fodd bynnag, gwnaed penodiad parhaol yn ystod y flwyddyn ac fe ymgwymerodd yr ymgeisydd llwyddiannus â'i swydd ym mis Rhagfyr 2021. Mae deiliad y swydd yn Swyddog Adran 151 profiadol o awdurdod lleol cyfagos yng Nghymru ac wedi dod â pheth wmbredd o brofiad a gwybodaeth i'r rôl. Hefyd, mae'r adain gyllid wedi bod yn cael ei hailstrwythuro yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol i wneud nifer o swyddi dros dro yn rhai parhaol ac i ddarparu mwy o gydnherthedd mewn rhai meysydd. Fe wnaeth hefyd alluogi'r tîm i ddiweddarau gofynion staffio yn dilyn newidiadau i arferion gweithio dros y blynyddoedd diwethaf. Rhoddwyd y strwythur ar waith o 1 Ionawr 2022 ac mae'r rhan fwyaf o swyddi bellach wedi cael eu llenwi'n barhaol. Lle y bo angen mae staff wedi bod wrthi'n cael hyfforddiant a datblygiad yn eu swyddi newydd a bydd hyn yn parhau wrth symud ymlaen i sicrhau bod gan staff y sgiliau cywir ar gyfer eu rolau newydd.



*Gorsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr*

## 5 Gwella Llywodraethu

Nodwyd nifer o faterion arwyddocaol yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20 y Cyngor. Mae'r cynnydd a wnaed ar y materion arwyddocaol i'w weld isod:

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Cam Gweithredu	Diweddariad
Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	A	Bydd y Ddeddf yn cyflwyno newidiadau sy'n ymwneud â diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad, a gweithio rhanbarthol. Bydd hyn yn cael effaith ar y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau i gyfansoddiad a chylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2021, sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol, adolygiadau perfformiad a hunanasesiadau ehangach, a chyflwyno mesurau i sefydlu cyfranogiad y cyhoedd. Bydd y Cyngor yn ystyried Gorchmynion Cychwyn ac is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a bydd yn rhoi prosesau ar waith ar gyfer gweithredu'r newidiadau gofynnol.	Cafodd y Cyngor adroddiad ar 20 Ionawr 2021 yn amlinellu prif ddarpariaethau'r Ddeddf ynghyd â Chynllun Gweithredu er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn barod ar gyfer amryw elfennau'r Ddeddf wrth iddynt ddod i rym. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ar 20 Hydref 2021 yn gofyn am gymeradwyaeth i newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddod i rym yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2022. Cafodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlinellu'r newidiadau hynny ar 11 Tachwedd 2021. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd wedi ysgwyddo rhai o'i gyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf, gan gynnwys adolygu'r broses Gwynion. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chabinet Rhanbarthol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar y model cyflawni a'r trefniadau llywodraethu a ffeirir ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforedig statudol a byddir yn bwrw ymlaen â hyn dros y misoedd nesaf. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn sefydlu systemau i alluogi'r Cyngor i ymgorffori ac adrodd ar ddiwylliant o hunanasesu, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chyfarwyddiaethau i sicrhau bod dull cyson a

			thrylwyr yn ei le. Mae'r BRhC wedi cael nifer o adroddiadau ac wedi cytuno ar ddull cyson o sgorio a llunio dyfarniadau.
Cynaliadwyedd Ariannol	F	Bydd pwysau ariannol parhaus y pandemig, a'i bwysau cynyddol ar wariant a llai o incwm, yn effeithio ar flwyddyn ariannol 2021-22. Gofynnir am gyllid allanol i leddfu'r pwysau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Caledi lle bo hynny'n bosibl. Bydd cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn cael eu hadolygu a'u cynnal i gefnogi costau Covid-19 penodol sy'n deillio o benderfyniadau lleol, yn ogystal â darpariaeth i ddygydd â phwysau eraill nas ariennir, megis gostyngiadau yn incwm y dreth gyngor a chostau ychwanegol y Cyngor.	Mae hawliadau misol wedi cael eu gwneud i Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â Covid ers dechrau'r flwyddyn ariannol, ynghyd â hawliadau chwarterol am golli incwm. Cyhoeddodd LIC y byddai'r Gronfa Galedi yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac ar ôl hynny byddai angen i'r Cyngor dalu unrhyw gostau ychwanegol ag arian a gynhwysir yn eu setliad yn 2022-23. Mae'r rhan fwyaf o hawliadau hyd yma wedi cael eu talu'n llawn, gyda dim ond mân symiau yn peidio â chael eu caniatáu. Mae Cronfa Adferiad Covid y Cyngor yn parhau i gwrdd â chostau penderfyniadau lleol, fel parcio ceir am ddim, sy'n cael eu cymeradwyo gan y Cabinet. Mae'r gronfa wrth gefn hon, ynghyd â'r holl gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi eraill yn cael ei hadolygu bob chwarter. Derbyniodd y Cyngor ei Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ym mis Rhagfyr 2022 ac oherwydd y cynnydd sylweddol uwch na'r disgwyl yn mewn Cyllid Allanol Cyfun, llwyddodd i wneud darpariaeth ar gyfer nifer o bwysau wrth symud ymlaen, gan gynnwys cwrdd ag unrhyw gostau parhaus sy'n deillio o'r pandemig. Mae LIC wedi darparu cynnydd dangosol ar gyfer Cymru gyfan mewn cyllid ar gyfer 2023-24 a 2024-25 i ddarparu rhyw lefel o sicrwydd i awdurdodau lleol wrth edrych tua'r dyfodol. Fodd bynnag,

			bydd yr amgylchiadau economaidd presennol, a'r codiadau nas rhagwelwyd mewn chwyddiant a chostau eraill, yn rhoi pwysau pellach ar awdurdodau lleol yn y dyfodol a bydd angen monitro hyn yn fanwl yn ystod 2022-23.
Adolygiad o Reolau Gweithdrefn Ariannol	F	Yn 2017 y diweddarwyd hwy ddiwethaf, mae angen adolygu a diweddarau anghenion i adlewyrchu arferion cyfredol, yn enwedig gyda threfniadau gweithio hyblyg a gweithio gartref.	Mae'r adolygiad o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol wedi cael ei gwblhau, yn dilyn adolygiad trylwyr gan swyddogion ar draws y Cyngor, ac fe gafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2021 i gymeradwyo'r fersiwn ddiwygiedig a'u cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
Adolygiad o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol a'r amserlen gysylltiedig	A	Yn 2017 y diweddarwyd y Cod ddiwethaf, ac mae angen ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r fframwaith llywodraethu presennol.	Cynhaliwyd adolygiad o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ail hanner y flwyddyn ariannol. Yn dilyn adolygiad cychwynnol, penderfynwyd y byddai adolygiad mwy cadarn yn cael ei gynnal, felly bydd hwn nawr yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd.
Parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol	E	Asesu anghenion sgiliau fel rhan o'r ailstrwythuro cyllid a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ar bob lefel lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Hefyd i ystyried hyfforddiant arall i staff cyllid a staff nad ydynt yn rhai cyllid, yn ogystal ag Aelodau Etholedig.	Fe ailstrwythurwyd yr adain gyllid ar 1 Ionawr 2022 a chafodd yr holl swyddi gwag eu hysbysebu a'u llenwi. Lle mae angen am hyfforddiant wedi cael ei nodi mae wedi cael ei ddarparu trwy gyfuniad o hyfforddiant allanol ffurfiol a hyfforddiant mewnol. Mae cynllun ar gyfer hyfforddiant i'r Aelodau yn ei le ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, sef yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ariannol a hyfforddiant penodol ar Reoli Trysorlys, a fydd yn cael ei gefnogi gan ein Hymgynghorwyr Rheoli Trysorlys.

Digidol / rheoli asedau TGCh gyda ffyrdd newydd o weithio	A	Newid prosesau rheoli – gan gynnwys rheoli patsys ar gyfer yr holl ddyfeisiau a rhaglenni ar draws y tirlun TGCh. Defnyddio Cronfa Ddata Rheoli Ffurfweddu (CMDB) i storio gwybodaeth am asedau caledwedd a meddalwedd. Aseidiadau Archwilio Annibynnol sy'n adolygu'r ffordd y rheolir y seilwaith TGCh gan gynnwys dyfeisiau a meddalwedd.	Mae prosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu gweithredu trwy dull systematig ar gyfer rheoli'r holl newidiadau. Gan sicrhau na wneir unrhyw newidiadau diangen, mae pob newid yn cael ei ddogfennu, gyda'r nod o beidio ag amharu'n ddiangen ar wasanaethau ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon, gan ddarparu'r lefelau perthnasol o ddiogelwch ar gyfer y seilwaith TGCh gan gynnwys dyfeisiau a meddalwedd. Mae'r Bwrdd trawsnewid digidol yn cwrdd bob deufis ac yn datblygu rhaglen lawn o brosiectau i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i ddinasyddion ac yn ysgogi effeithlonrwydd ac yn gwella swyddi pobl.
Twyll Seibr	F	Gweithdrefnau a chanllawiau staff drwy bolisiau diogelwch IT, e.e. Chwe Rheol Syml, hyfforddiant Diogelu Data. Rhwystrau corfforaethol ar storio ffeiliau ar-lein. Rheoli porthau ac amgryptio dyfeisiau USB. Achrediad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus / Ardystio.	Hyfforddiant ar waith ochr yn ochr â rheolaethau ffisegol ar draws y seilwaith TG o ran storio ffeiliau a dyfeisiau USB allanol. Mae'r Uned Gwasanaeth TGCh yn cael ei harchwilio a'i hachredu'n flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r Cod Cysylltiadau Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN CoCo). Yn ystod pandemig y Coronafeirws a'r gwrthdaro yn Wcráin mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn cynghori holl sefydliadau'r llywodraeth i fod ar rybudd uchel rhag bygythiad ymosodiadau seiber. Mae uned TGCh CBSP yn symud ymlaen tuag at ardystiad Cyber Essentials Plus i gyd-fynd â'r PSN CoCo cyfredol.
Effaith pandemig Covid-19 ar y sector gofal cymdeithasol a rhoi diwedd ar gyllid caledi i'r sector	C	Mae cynllun sefydlogrwydd y farchnad yn cael ei ddatblygu i liniaru effaith y pandemig ar gartrefi gofal pobl hŷn ac i sicrhau bod nifer ac ansawdd y ddarpariaeth yn parhau i fod yn	Mae adrodd ar sefydlogrwydd y farchnad yn ofyniad rheoleiddiol penodol, sy'n cael ei gynnal ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg a'i gydlynu gan yr uned gomisiynu ranbarthol.

		ddigonol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.	Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Iechyd a Chynghorau yng Nghwm Taf Morgannwg, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ym mis Gorffennaf 2022.
Materion GDPR gyda ffyrdd newydd o weithio	A	Dosbarthwyd neges Bridgenders ym mis Medi 2020 ar ddiogelu data a gweithio gartref. Roedd yn rhoi arweiniad ar faterion fel cyfathrebu'n ddiogel, diweddar meddalwedd, sicrhau nad oes unrhyw ddata personol yn cael ei beryglu, defnyddio technoleg gymeradwy'r Cyngor yn unig. Mae gan y Cyngor bolisiau Ddeddf TGCh a Diogelu Data (DPA) llym ac mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth (gyda chynrychiolaeth o bob Cyfarwyddiaeth) yn parhau i gwrdd yn chwarterol i sicrhau bod diogelwch gwybodaeth yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae hefyd yn ofynnol i'r holl staff ac Aelodau Etholedig ymgymryd â modiwl e-ddysgu gorfodol y Ddeddf Diogelu Data.	Mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i gwrdd bob chwarter ac mae'n ofynnol i'r holl staff ac Aelodau wneud y modiwl e-ddysgu gorfodol ar y Ddeddf Diogelu Data / Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data.
Materion yn ymwneud â'r gweithlu / lles	E	Datblygu polisiau Adnoddau Dynol i gefnogi trefniadau gweithio yn y dyfodol. Datblygu a gweithredu camau gweithredu ychwanegol i gefnogi diwylliant lles ar draws y sefydliad. Gwella cyfathrebu i helpu staff i gael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â Covid-19 ac adferiad.	Mae polisi gweithio hybrid newydd yn cael ei ddatblygu ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda chynrychiolwyr undebau llafur. Yn y cyfamser mae gwaith ar y gweill ar y trefniadau ymarferol i sicrhau bod staff yn gallu archebu desgiau ac ystafelloedd cyfarfod am gyfnodau pan fo angen iddynt weithio o leoliad swyddfa.  Mae lles staff yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel ac yn cael sylw mewn negeseuon wythnosol i staff, mae grŵp lles corfforaethol wedi'i sefydlu ac mae cymorth penodol wedi cael ei roi mewn ymateb i anghenion penodol.



Yn seiliedig ar adolygiad o'r fframwaith llywodraethu, ac asesiad o gydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, eir i'r afael â'r materion arwyddocaol canlynol a nodwyd yn 2021-22 yn 2022-23 gyda chysylltiadau â'r [Egwyddorion Llywodraethu](#) ar dudalen 86:

Mater	Egwyddor Llywodraethu	Beth yw'r mater	Camau Gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater
Hunanasesiad	F	Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddangos ei fod yn adolygu i ba raddau y mae'n ateb 'gofynion perfformiad' y Ddeddf, gan gynnwys ymgynghori ac adrodd ar berfformiad yn flynyddol.	Mae'r gofyniad i gyflwyno 'hunanasesiad' cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor yn symud ymlaen yn foddhaol. Fe wnaeth yr adroddiad a'r cyfarfod cyntaf ar Berfformiad Corfforaethol yn 2022/23, a oedd yn myfyrio ynghylch perfformiad yn chwarter 4 2021/22, gyflwyno hunanasesu ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau gan ganolbwyntio ar gwestiwn allweddol un, 'perfformiad a chanlyniadau'. Rhagwelir y bydd y broses yn esblygu ac yn parhau i wella, gan ganolbwyntio'n ychwanegol ar gwestiwn allweddol 2, 'defnyddio adnoddau', a hefyd defnyddio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ddangos yr adroddir yn effeithiol ar drefniadau llywodraethu a'u bod yn cael eu hasesu'n effeithiol. Bwriedir cynnal cyfres o weithdai ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2022 i fwrw ymlaen â hyn, gyda'r nod o adrodd yn gynhwysfawr ar berfformiad y Cyngor yn seiliedig trwy broses o hunanasesu cyson, ym mis Medi 2022.
Cydbwyllgorau Corfforedig	A	Er mwyn sicrhau bod buddiannau'r Cyngor yn cael eu diogelu trwy sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig, a fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros lesiant economaidd, trafnidiaeth a chynllunio strategol.	Mae'r trefniadau interim i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer y meysydd gwasanaeth hyn wedi cael ei symud ymlaen gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae adroddiad ar hynny wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Cynaliadwyedd Ariannol	F	Y pwysau ariannol parhaus yn sgîl y pandemig, gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r gwrthdaro presennol yn Wcráin, gan arwain at gynnydd nas rhagwelwyd mewn chwyddiant ac argyfwng costau byw i drigolion.	Bydd tybiaethau ar gyfer cyllidebau'r blynyddoedd i ddod yn parhau i gael eu hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid. Bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu hadolygu a'u cynnal i gefnogi pwysau penodol. Bydd budd-daliadau a thaliadau cymorth, fel cymorth gyda'r dreth cyngor, taliadau tanwydd gaeaf a thaliadau costau byw yn cael cyhoedduswydd eang ac yn cael eu talu'n brydlon.
Gwasanaethau wedi'u Comisiynu / Ar Gontract	F	O ganlyniad i'r heriau economaidd sy'n wynebu pob sector, trwy brisiau cynyddol, materion sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi a materion staffio mae perygl na fydd ein partneriaid / gwasanaethau wedi'u comisiynu / contractwyr yn parhau i fod yn hyfyw, a allai amharu'n sylweddol ar wasanaethau a rhoi pwysau ychwanegol ar y Cyngor.	Mae mwy a mwy o dystiolaeth bod ein contractwyr presennol a'r rhai sy'n tendro am waith yn adlewyrchu costau sylweddol uwch yn eu ceisiadau. Bydd angen i'r Cyngor ymateb i hyn mewn modd cymesur a chyfrifol, gan gydnabod y pwysau gwirioneddol iawn a chan hefyd reoli'r effaith ar sefyllfa gytundebol ac adnoddau'r Cyngor mewn modd effeithiol, gan sicrhau ar yr un pryd bod gwasanaethau hanfodol y Cyngor yn cael eu cynnal. Hefyd, mae'r materion sylweddol o ran y gweithlu sy'n effeithio ar ein gallu i recriwtio a chadw staff mewn sawl rhan o'r Cyngor yn peryglu ein gallu i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol, ac yn lleihau ein capasiti a'n cydnherthedd. Mae cyfres gyfan o fentrau'n cael eu gweithredu i helpu i liniaru'r effaith a mynd i'r afael â'r materion mwyaf dwys.
Adolygu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol a'r atodlen gysylltiedig	A	Mae sicrhau bod y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ddiweddarau'n gyson yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y diben.	Fe'i diweddarwyd ddiwethaf yn 2017, ac mae angen ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r fframwaith llywodraethu cyfredol. Dechreuwyd ar y gwaith yma yn ystod 2021-22 ond bydd hyn yn cael ei gwblhau a'i gadarnhau yn 2022-23.

Datblygu Aelodau	E	Mae'n debygol y bydd carfan o Aelodau newydd yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, y bydd angen buddsoddiad sylweddol yn eu datblygiad er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rolau yn y modd mwyaf proffesiynol a gwybodus.	Cafodd y Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022-23 i gefnogi aelodau etholedig sy'n newydd ac sy'n dychwelyd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Chwefror 2022. Yn ogystal â'r Rhaglen Dysgu a Datblygu barhaus ar gyfer Aelodau Etholedig, caiff Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ei lunio a'i ddsbarthu yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023. Bydd holl ymatebion yr Aelodau'n cael eu dadansoddi ac, o hyn, bydd y Rhaglen barhaus yn cael ei datblygu a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd.
Effaith ar y sector gofal cymdeithasol yn sgîl pandemig Covid-19 a rhoi diwedd ar y cyllid caledi i'r sector	C	Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sector Gofal Cymdeithasol. Mae cyllid caledi byrdymor wedi helpu i gefnogi'r sector, ond bydd dod â'r cyllid hwn i ben yn cael effaith yn y dyfodol.	Mae cynllun sefydlogrwydd y farchnad wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod cynlluniau clir i ddarparu digonolrwydd o ran maint ac ansawdd y ddarpariaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
Materion o ran y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data sy'n gysylltiedig â ffyrdd newydd o weithio	A	Mae gweithio o bell yn galw am ymagwedd wahanol at ddiogelwch na gweithio mewn swyddfeydd canolog a rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â deddfau diogelu data.	<p>Wrth i'r Polisi Hybrid gael ei weithredu bydd canllawiau ychwanegol yn cael eu datblygu ar faterion fel cyfathrebu'n ddiogel, diweddarau meddalwedd yn gyson, diogelu data personol a'r angen i ddefnyddio technoleg a gymeradwywyd gan y Cyngor.</p> <p>Mae gan y Cyngor bolisiau llym o ran TGCh a'r Ddeddf Diogelu Data ac mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth (gyda chynrychiolaeth o bob Cyfarwyddiaeth) yn parhau i gwrdd yn chwarterol gan sicrhau bod diogelwch gwybodaeth yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>Mae'n ofynnol hefyd i'r holl staff ac Aelodau Etholedig wneud y modiwl e-ddysgu</p>

			gorfodol ar y Ddeddf Diogelu Data.
Cyfarfodydd Hybrid	A	Wrth i ni symud tuag at ffordd hybrid o weithio, i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i gefnogi cyfarfodydd pwyllgor hybrid.	Bydd Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Bydd y materion hyn yn cael eu monitro trwy gynllun gweithredu manwl yn ystod 2022-23, gyda'r swyddog cyfrifol a'r dyddiad cau ar gyfer rhoi camau gweithredu ar waith wedi'u nodi ar gyfer pob cam gweithredu ac adroddiadau'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet/Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 6 Datganiad Sicrwydd

Ymatebodd y Cyngor yn gyflym i bandemig Covid-19 i roi rheolaethau ar waith i wneud yn siŵr bod cofnod yn cael ei gadw o'r penderfyniadau a wnaed i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith. O ystyried y trefniadau hyn, nid oes unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu arwyddocaol wedi codi, ac mae'r Cyngor yn parhau i fod â threfniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu priodol ar waith.

Yn amodol ar ddatrys y materion uchod, gallwn roi sicrwydd rhesymol ar y cyfan bod trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn addas ar gyfer y diben.

Bydd camau i fynd i'r afael â'r materion y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cymryd i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach.

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: 25 Ionawr 2023 \_\_\_\_\_  
(Arweinydd)

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: 25 Ionawr 2023 \_\_\_\_\_  
(Prif Weithredwr)

## Rhestr Termau

### Actiwari

Mae actiwari'n berson sy'n cyfrifo premiymau yswiriant a phensiwn, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau fel disgwyliad oes.

### Addasiad i ffigyrau'r flwyddyn flaenorol

Yr addasiadau perthnasol hynny sy'n gymwys i flynyddoedd blaenorol yn sgîl newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu neu yn sgîl cywiro gwallau perthnasol.

### Amorteiddiad

Gostyngiad yng ngwerth gwariant cyfalaf nad yw wedi creu ased, drwy newidiadau mewn refereniw.

### Archwiliad

Mae archwiliad yn golygu archwiliad annibynnol ar gyfrifon y Cyngor.

### Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Yr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, neu'r Ardrethi Busnes, yw'r tâl sy'n cael ei godi ar ddeiliaid mangreodd busnes. Mae'r arian a gesglir yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru a'i ailddosbarthu i'r awdurdodau unigol yn gymesur â'u poblogaeth oedolion.

### Asedau cyfredol

Asedau byrdymor yw'r rhain sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu nesaf.

### Asedau gweithredu

Asedau yw'r rhain sy'n cael eu defnyddio wrth redeg neu ddarparu gwasanaethau.

### Balansau dirprwyedig ysgolion

O dan ddarpariaethau Rheoli Ysgolion yn Lleol, mae unrhyw falansau sydd wedi cronni ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu dirprwyo i'r ysgolion unigol. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu cadw y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor.

### Benthyciad neu fuddsoddiad dros dro

Dyma arian sydd wedi'i fenthycyca neu wedi'i fuddsoddi am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

### Blwyddyn ariannol

Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Yn achos awdurdodau lleol mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.

### Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb)

Cyfleuster benthycyca a ddarperir gan Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) y Llywodraeth yw hwn, sy'n darparu benthyciadau tymor hwy ar gyfer awdurdodau lleol.

### Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau (SeRCOP)

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Adroddiadau ar Wasanaethau yn fframwaith cyson ar gyfer adroddiadau ar ddata awdurdodau lleol. Adolygir SeRCOP bob blwyddyn gan y corff rheoleiddio priodol i sicrhau ei fod yn datblygu yn unol ag anghenion llywodraeth leol fodern, tryloywder, y gwerth gorau a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

### Costau Annosbarthadwy (NDC)

Mae CDC yn gategori o gostau a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau ac ni ellir ei ddyrannu i wasanaethau penodol. Mae'n cynrychioli:

- costau cyfleusterau T.G. nas defnyddiwyd,
- costau asedau tymor hir nas defnyddiwyd, nad ydynt yn realeiddiadwy,
- rhai costau cronfa bensiwn

### Craidd Corfforaethol a Democrataidd (CDC)

Mae'r CDC yn wasanaeth a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon y Gwerth Gorau, sef costau sy'n ymwneud a gweithgareddau Aelodau (Cynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheoli) a chostau sy'n darparu'r isadeiledd i sicrhau bod modd i wasanaethau gael eu darparu (Rheoli Corfforaethol).

### Credydwr

Credydwr yw sefydliad neu rywun y mae ar y Cyngor arian iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.



**Cronfa wrth gefn ailbriso**

Mae hon yn cynrychioli'r cynnydd/gostyngiad annosbarthadwy ym mhrisiad asedau sefydlog.

**Cronfa ymddiriedolaeth**

Mae cronfeydd ymddiriedolaeth yn cadw arian ar ran unigolion neu sefydliad. Bydd ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r cronfeydd ar ran y perchnogion.

**Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi**

Cronfeydd wrth gefn sydd wedi'i neilltuo at ddiben penodol yw'r rhain.

**Croniad**

Mae cronriad yn swm a ddangosir yn y cyfrifon ac sy'n cynrychioli incwm neu wariant am y cyfnod cyfrifyddu ond nad oedd wedi'i gael neu wedi'i dalu ar ddyddiad y fantolen.

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**

Y Cyfrif Addasu Cyfalaf sy'n amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau ar gyfer rhoi cyfrif am ddefnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer cyllido gweithgarwch i gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol.

**Cyfrif escrow**

Trefniant cyfreithiol yw escrow, lle mae arian yn cael ei draddodi i drydydd parti (o'r enw asiant escrow) i'w gadw mewn ymddiriedolaeth hyd nes i ryw ddigwyddiad penodol godi neu nes y bodlonir amod neu amodau mewn contract.

**Cyfrif refeniw**

Cyfrif yw hwn sy'n cofnodi'n gwariant a'n hincwm o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau ac ariannu gwariant cyfalaf.

**Cyllideb**

Mae cyllideb (neu amcangyfrif) yn gynllun incwm a gwariant, y seilir y dreth gyngor arni. Wedyn mae'r gwariant a'r incwm gwirioneddol yn cael eu monitro yn erbyn y cynllun hwn.

**Darpariaeth**

Mae darpariaeth yn swm y byddwn yn ei neilltuo yn ein cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau a ddisgwylir na allwn eu mesur yn fanwl gywir.

**Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR)**

Swm yw hwn sydd wedi'i neilltuo i ad-dalu benthyciadau. Dylai fod yn swm darbodus.

**Datganiad Gwariant a Chyllid**

Mae'r datganiad hwn yn dwyn ynghyd berfformiad yr awdurdod lleol a adroddir ar sail gwariant a fesurir o dan arferion cyfrifyddu cywir gyda chodiannau wedi'u diffinio'n statudol i Gronfa'r Cyngor.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**

Mae'r cyfrif hwn yn cofnodi'r gwariant a'r incwm beunyddiol ar eitemau fel cyflogau misol ac wythnosol, costau rhedeg gwasanaethau a chyllido gwariant cyfalaf.

**Datganiad Llifoedd arian parod**

Dyma ddatganiad sy'n crynhoi'r symudiadau arian parod yn ystod y flwyddyn.

**Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.

**Derbyniad cyfalaf**

Derbyniadau cyfalaf yw'r enillion a geir drwy werthu asedau sefydlog megis tir neu adeiladau.

**Dibrisiant**

Dibrisiant yw'r amcangyfrif o'r golled yng ngwerth asedau sefydlog a ddangosir yn y Fantolen.

**Digwyddiadau ar ôl y fantolen**

Eitemau ar ôl y fantolen yw'r rhai sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Mae'r rhain yn eitemau nad oeddent yn bodoli ar yr adeg y paratowyd y Fantolen ond dylid eu datgelu os ydynt yn berthnasol i gyflwyno'r cyfrifon yn deg.

**Dyledwr**

Dyledwr yw sefydliad neu rywun y mae arno arian i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu'r blynyddoedd blaenorol.

**Grantiau'r llywodraeth**

Cymorth oddi wrth y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrrff tebyg, lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddiadau asedau i awdurdod yn gyfnewid am gydymffurfio yn y gorffennol neu'r dyfodol ag amodau penodol ynglŷn â gweithgareddau'r awdurdod.

**Gwaith ar y gweill (WIP)**

Ystyr gwaith ar y gweill yw gwerth gwaith a wneir ar brosiect sydd heb ei orffen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac nad yw wedi'i godi eto ar y cyfrif refeniw.

**Gwariant cyfalaf**

Gwariant ar asedau sefydlog yw gwariant cyfalaf. Dyma asedau a fydd yn cael eu defnyddio am sawl blwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau, sef eitemau fel adeiladau, offer a cherbydau.

**Gwerth Realeiddiadwy Net**

Pris gwerthu ased, wedi'i ostwng yn ôl cost berthnasol (uniongyrchol) ei werthu.

**Gwerth y Farchnad Agored yn y Defnydd Presennol (OMVEU)**

Mae OMVEU yn sail ar gyfer prisio asedau sefydlog.

**Mantolen**

Mae'r fantolen yn ddatganiad o'n hasedau, ein rhwymedigaethau a'n balansau eraill, ar ddyddiad diwedd y flwyddyn ariannol, sef 31 Mawrth.

**Menter cyllid preifat (PFI) –** menter gan y llywodraeth ganolog sy'n ceisio cynyddu lefelau'r cyllid sydd ar gael i'r gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. Ategir y PFI gan nifer o gymhellion i annog awdurdodau i gymryd rhan.

**Praeseptau**

Dyma'r swm sy'n cael ei dalu i awdurdod nad yw'n bilio (er enghraifft cyngor cymuned) er mwyn iddo dalu ei gostau (ar ôl lwfio am ei incwm).

**Prydlesi cyllid**

Defnyddir prydlesi cyllid i ariannu pryniannau lle mae'r Cyngor yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased.

**Prydlesi gweithredu**

Prydlesi yw'r rhain lle mae risgiau perchnogaeth yr ased yn aros gyda'r perchennog.

**Prydlesu**

Mae hwn yn ddull o ariannu gwariant cyfalaf trwy dalu'r perchennog i ddefnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

**Pwyllgor Dehongli'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRICs)**

Corff dehongli'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol sydd wedi'i fwriadu i helpu'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol i wella trefniadau adrodd ariannol trwy adnabod, trafod a datrys materion adrodd ariannol yn brydlon o fewn fframwaith y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

**Rhestrau eiddo**

Deunyddiau crai a brynir i'w defnyddio o ddydd i ddydd yw rhestrau eiddo. Dangosir gwerth yr eitemau hyn sydd heb eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel asedau cyfredol yn y fantolen.

**Rhwymedigaeth**

Mae rhwymedigaeth yn swm sy'n daladwy ar ryw adeg yn y dyfodol.

**Rhwymedigaethau cyfredol**

Rhwymedigaethau byrdymor yw'r rhain sydd i'w talu gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu ddilynol.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol**

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau wrth i ddigwyddiadau ansicr godi yn y dyfodol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**

Rheoliadau ariannol sydd i'w dilyn ac fel y'u gosodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (ASB).

**Trafodion Partïon Cysylltiedig**

Dyma drosglwyddiadau asedau neu rwymedigaethau neu gyflawniad gwasanaethau gan barti cysylltiedig, drosto neu ar ei ran, p'un a fydd tâl yn cael ei godi ai peidio.



